# Y DDOLEN

Rhifyn 463 | Papur Bro Ystwyth ac Wyre | Medi 2020 60c


## Colli gwallt




Anwen Evans, Blaenplwyf, yn cyflwyno siec i Hahav yn dilyn siafio ei gwallt yn ystod y cyfnod clo. Casglodd y swm arbennig o £1,075 tuag at yr achos teilwng hwn sy'n gwasanaethu ein cymuned. Hoffai Anwen ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

## Llwyddo ar lein




Llwyddiannau Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter, mewn sioeau rhithiol dros yr haf: Is-Bencampwr Dosbarth Mynydd a Gweundiroedd yn 'The Online Sheep Show' (top chwith); Tywysydd Ifanc Dosbarth Canolradd Cymdeithas Defaid Jacob Cymru (gwaelod chwith); Prif Bencampwr Tywysydd Ifanc 12–16 oed, Sioe Sirol Amaethyddol Aberteifi Ar Lein 2020 (ar y dde). Llongyfarchiadau mawr iddi!

## Y Normalrwydd Newydd?




Ai dyma fydd dyfodol ein cymdeithasau o hyn ymlaen? Mae Lowri Fron o fenter newydd Bro360 yn gofyn y cwestiwn, gw. tudalen 6.

## Ail yng Nghymru a Lloegr




Elin Rattray, CFfI Trisant a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Aelod Iau y flwyddyn Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc (Lloegr a Chymru).

RHIF 462 AWST 2020
SEFYDLWYD MEDI 1978

y.ddolen@gmail.com

Llywydd
**Mair Hughes**, Greenmeadow, Trefenter (01974 272612)

Cadeirydd
**Gethin Rhys**, Gelli Aur, Cwrt y Cadno, Llanilar (01974 241062)

Is-Gadeirydd
**Andrew Hawke**, Collen, Cwrt y Cadno, Llanilar (01974 241745)

Panel Golygyddol
Elin ap Hywel
Angharad Evans
Enfys Evans
Andrew Hawke
Mair Hughes
Elen Lewis
Edgar Morgan
Eilian Rosser-Lloyd
Hywel Llyr Jenkins
Gethin Rhys

Teipyddion
**Siân Evans**, Ger-y-llan, Llanddeiniol SY23 5DT
**Sandra Jenkins**, Pant yr ŵyn, Trefenter SY23 4HU (01974 272261)

Ysgrifennydd
**Rina Tandy**, Brynawel, Trefenter, Aberystwyth SY23 4HJ (01974 272131)

Trysorydd/Tanysgrifio
**Rhian Thomas**, 20 Crugyn Dimai, Rhydyfelin SY23 4PR (01970 611691)

Swyddog Hysbysebion
**Wil Davies**, Porth Penrhyn, Capel Seion SY23 4EE (01970 880495)

Trefnydd Cyfeillion Y Ddolen
**Eirwyn Evans**, Hafan, Llanddeiniol SY23 5DT (01974 202287)

**Cysodwyd gan**: Elgan Griffiths
**Golygyddion y mis**: Eilian Rosser-Lloyd, Elen Lewis ac Andrew Hawke

Y RHIFYN NESAF:
**Dyddiad cau ar gyfer deunydd**: 16 Medi
**Yn y siopau**: 26 Medi

Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CYMRAEG

Noddir Y DDOLEN gan Gyngor Sir Ceredigion

# Golygyddol

**Mis Medi**

Mis y cnau, mis cynhaeaf – mis gwair rhos,
Mis y grawn melynaf,
Mis gwiw cyn gormes gaeaf,
Mis liw'r aur, mis ola'r haf

Gwilym R. Tilsley

Wrth i'r haf dynnu i'w derfyn, a llawer ohonom yn gaeth i'n cartrefi o hyd, mae'n rhaid i ni ddechrau ystyried y 'normalrwydd newydd' bondigrybwyll a sut y bydd cymdeithasau yn ailddechrau cymdeithasu o dan gyfyngiadau Covid-19. Mae Lowri Jones – neu Lowri Fron i'r rhan fwyaf ohonom – wedi caniatáu i ni argraffu ei chyfraniad at y ddadl a ymddangosodd ar wefan *Bro360* ryw wythnos neu ddwy yn ôl. Rhaid i ni dderbyn y bydd y feirws gyda ni am flynyddoedd, o bosibl, a bod rhaid i ni addasu ein ffyrdd o wneud pethau er mwyn gallu cyd-fyw ag ef mor ddiogel â phosibl heb ein caethiwo yn ein cartrefi. Mae'r gwefannau newydd *Bro360* a *BroAber360* y mae Lowri wedi chwarae rhan bwysig i'w sefydlu ychydig cyn dyfodiad y feirws, wedi bod yn llinyn cyswllt anhepgor rhwng ein cymunedau dros y misoedd diwethaf – yn rhannu gwybodaeth berthnasol leol, yn ein diddanu, a hyd yn oed yn darparu ffordd i ni gyhoeddi'r papurau bro pan nad oedd y gweisg ar agor i'w hargraffu. Os nad ydych yn gyfarwydd â nhw, byddai'n werth i chi chwilio amdanynt ar y We.

Y mis hwn hefyd mae colofn newydd Bro360 yn ymddangos am y tro cyntaf dan ofal Daniel Johnson (Dan), sy'n tynnu sylw at rai o'r storïau diweddaraf ar y wefan. Mae Dan yn ei gyflwyno ei hun yn y golofn. Gwelwn y gwefannau hyn yn ategu'r papurau bro drwy gynnig lle i gael gwybodaeth leol rhwng rhifynnau'r papurau bro a lle i gyhoeddi newyddion neu adloniant ar ffurf sain a fideo. Gobeithio hefyd y byddant yn cynnig cyfle i bobl ifanc y fro gyfrannu atynt gan eu hysbrydoli i gyfrannu i'r papurau bro hefyd.

Un peth sydd wedi dod yn amlwg iawn yw pa mor angenrheidiol yw cyswllt band eang cyflym a dibynadwy, yn enwedig i bawb sy'n gorfod gweithio o'r tŷ neu sy'n rhedeg busnes ar lein. Mae sylwadau Ben Lake ac Elin Jones ar y datblygiad cyffrous newydd ynghylch gwella'r ddarpariaeth yng Ngheredigion yn berthnasol iawn felly. Anogir pawb sydd â chyswllt gwael i ddarllen eu colofn yn ofalus a'r wybodaeth ar y clawr cefn.

Bu'n rhaid gohirio Cwrdd Blynyddol Y Ddolen yn y gwanwyn ond rydym yn gobeithio trefnu cyfarfod cyn bo hir. Bydd rhaid penderfynu a fydd cyfarfod corfforol mewn neuadd gyda digon o le i ni gadw pellter rhyngom, neu ddigwyddiad ar lein, neu gyfuniad o'r ddau. Gwnawn ein gorau i hysbysebu'r digwyddiad pan fydd y trefniadau wedi'u gwneud. Diolch am eich amynedd.

Rhaid gorffen drwy longyfarch holl bobl ifanc Bro'r Ddolen sydd wedi derbyn – o'r diwedd! – y canlyniadau angenrheidiol i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg neu eu gyrfa. Rydym yn ddiolchgar i Lynn Morris am ddisgrifio ei phrofiadau i ni yn y rhifyn hwn wrth iddi hithau aros am ei chanlyniadau.

Cymerwch ofal a mwynhewch yr hyn sydd ar ôl o'r haf.

## Dyfyniad y mis

Ceir dyfyniad y mis gan y Parch Ddr Watcyn James.

"Gwnaeth bopeth yn hyfryd yn ei amser, a hefyd rhoddodd dragwyddoldeb yng nghalonnau pobl; eto ni all neb ddirnad yr hyn a wnaeth Duw o'r dechrau i'r diwedd." Pregethwr 3:11.

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Cyhoeddir Y DDOLEN yn fisol gan Gymdeithas Y DDOLEN gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Argraffwyd gan Y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion. Cyfeirir pob gohebiaeth at yr Ysgrifennydd. Ni ellir gwarantu cynnwys unrhyw ddeunydd a anfonir i'w gyhoeddi yn Y DDOLEN na derbyn cyfrifoldeb am ei ddychwelyd.

## Y DDOLEN

Prynwch Y Ddolen yn y siopau lleol hyn:

| LLEOLIAD | GWERTHWR |
| --- | --- |
| Aberaeron | Siop Lyfrau Aeron |
| Aberystwyth | Inc |
| Aberystwyth | Siop y Pethe |
| Aberystwyth | Y Llyfrygell Gen. |
| Blaenplwyf | Siop y Parc |
| Bronant | Siop y Bont |
| Cross Inn | Swyddfa'r Post |
| Cilcennin | Garej y Groesffordd |
| Llanfarian | Siop |
| Llanfihangel y Creuddyn | Ffarmers |
| Llangwyryfon | Judith Jones, Ger Wyre |
| Llanilar | Siop |
| Llanon | Spar |
| Llanrhystud | Swyddfa Post |
| Penparcau | Spar |
| Penrhyn-coch | Garej Tŷ Mawr |
| Ponterwyd | Garej Rheidol |
| Pontrhydygroes | Cwtsh |
| Tregaron | Caron Stores |

CEFNOGWCH EIN CEFNOGWYR!

# Rhydyfelin

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mr Glan Davies, Cae Bachyrhiw ar yr anrhydedd o'i urddo i Wisg Las Yr Orsedd. Yn dilyn gohirio Eisteddfod 2020 edrychwn ymlaen i'r seromi urddo yn Nhregaron y flwyddyn nesa'.

**Llwyddiant yn Lefel A a TGAU**
Llongyfarchiadau i bawb ar eu canlyniadau yn yr Haf. Mae wedi bod yn gyfnod anodd iawn a dymunwn yn dda i bawb i'r dyfodol.

**Marwolaeth**
Trist iawn cofnodi marwolaeth Mr Ieuan Jones, Y Gelli, 12 Crugyn Dimai yn ddiweddar a hynny dim ond naw mis ar ôl colli ei wraig Catherine. Cydymdeimlwn yn ddwys efo'i fab Geraint, ei wraig Evanna a'r ŵyr Owain yn eu colled.

## Fy nghynefin rhwng dau fryn

Diwrnod arall o fod adref, diwrnod arall o wneud gwaith adref, diwrnod arall o chwarae adref, diwrnod arall o weld adref, diwrnod arall o weld Rhydyfelin o rywle gwahanol. Wrth fynd ar unrhyw lwybr, mae'r môr i'w weld nifer o weithiau ar y daith. Ar lan y môr yn edrych yn ôl? Ar lôn gefn Llanfarian? Ar hyd y llwybr beicio? Na, heddiw lan ar lôn ffarm Penlanlas.

Wrth gerdded i fyny'r bryn, tawelu mae popeth prysur, a chryfhau mae byd natur. Sŵn brefu'r defaid yn y caeau, a'r adar yn canu mewn unsain. Sŵn yr awel yn dod o'r môr, mewn harmoni efo'r adar. Tawelwch rhag pobl. Tawelwch rhag newyddion. Tawelwch rhag Show My Homework. Tawelwch rhag y pethau gwael. Dim ond natur sydd i'w glywed (a Mam), sŵn arferol nawr.

Rwy'n cyrraedd y troad cyntaf, ac yn troi, gan weld llonyddwch yr ardal, fawr ddim yn symud, dim ond dail y coed yn chwifio'n araf, a'r tonnau yn y pellter yn fach heb y gwynt. Gwelaf adref, fy nghynefin rhwng dau fryn. Y ddau yn fy atal rhag gweld ymhellach. Pen Dinas ar un ochr fel wal rhyngof i ac Aber. Gwelaf y môr yn gaeedig gan y bryniau, yn fy ngwneud eisiau hwylio allan i weld bae fy nghartref. Gwelaf y Waunfawr yn fach yn y pellter. Byddwn yn gwneud unrhyw beth am sglodion a hufen iâ ar lan y môr. Gwelaf dai mewn grwpiau, fy stad i ar y dde yn wyn o flaen y gwyrddni, yn eich arwain ymlaen at y stad islaw. Awyr llwm sydd heddiw, a'r môr dan ei ddylanwad. Gwair gwyrdd yn cylchynu o amgylch ein tai fel ffos. Golygfa arferol nawr.

Gan sefyll mewn un lle, rwy'n arogli nifer o bethau. Aer y môr yn diflannu ond dal yno, rwy'n gwybod ei fod yno ond mae'n anodd ei arogli'n iawn. Y ffarm gyfagos yn llenwi fy nhrwyn efo pob math o arogleuon gwahanol. Y blodau pert fel persawr ar hyd y lôn, a'r planhigion gwyllt yn tyfu ar bob coeden ac ar hyd y caeau. Arogl arferol nawr.

Pan edrychaf o'm cwmpas, teimlaf awel ffres yn llifo ar hyd fy mreichiau fel dŵr, teimlaf hiraeth am Aber, lle mae miloedd o atgofion. Aber a'i môr mawr yn agor ac yn eich tynnu i mewn i weld yn bellach. Teimlaf yn gartrefol wrth weld y môr, y wlad, a'r pentref. Teimlaf yn heddychlon yn edrych draw at y môr efo'r caeau tawel, mawr ac agored o'i flaen. Teimlaf y gwynt yn chwythu fy ngwallt i bobman. Teimlad arferol nawr.

Gan weld y môr, rwy'n gallu blasu'r aer sy'n dod ohono, yr halen a'r oerfel yn gwneud i mi wenu. Mae blas arbennig ar awyr iach, ac rwy'n sylwi arno'n ddyddiol erbyn hyn. Blas arferol nawr.

O mor bert yw'r olygfa rwy'n gweld bob hyn a hyn. Awyr las neu gymylau duon, yr un olygfa a welaf, sef adref.

**Efa Lois Williams**



Rhydyfelin 'rhwng dau fryn'.

# Clwb Strôc Aberystwyth a'r Cylch

**Enillwyr Clwb Cant**
**Mis Ebrill 2020**
£30 Shirley Rowlands, Bow Street.
£25 Clements, Stryd Cambria, Aberystwyth.
£20 Craig Edwards, Jonah's Fish, Aberystwyth.
£15 Beryl Thomas, Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth.
£15 Catrina, 14 Bryn y Môr, Aberaeron.
£15 Delyth Lewis, Lleifior, Blaenplwyf.
£15 Brian Dywema, Leri Garage, Y Borth.
£10 Ieuan Davies, 16 Maes yr Efail, Penrhyn-coch.
£10 Ben Hindmarch, Manceinion.
£10 Kath Adams, 51 Tregerddan, Bow Street.
£10 Maureen Jenkins, Tal-y-bont.
£10 Agnes McKenzie, Goath, Lôn Tyllwyd, Llanfarian.
£10 Iona Mason, Bwlch-y-Dderwen, Llanfarian.

**Mis Mai 2020**
£30 Marilyn Davies, 7 Parc Dinas, Penparcau.
£25 Mathew, 26 Ffordd Alexandra, Aberystwyth.
£20 Dai Harris, Esgair Saeson, Blaenpennal.
£15 Dexter Owen, 24 Stryd Cambria, Aberystwyth.
£15 Reese Meddins, Llanon.
£15 Cynthia Phillips, Tan-y-Glog, Rhydyfelin.
£15 Sue Pugh, Nottingham House, Llanbadarn.
£10 Myfanwy Thomas, Fedw Arian, Llanrhystud.
£10 Nigel Simkins, 24 Aber Holiday Village.
£10 Linda Williams, Ffordd Bryn-y-Môr, Aberystwyth.
£10 Jonathan Morris, Trewern, Aberystwyth.
£10 Tim Evans, 40 Bryn Rheidol, Llanbadarn.
£10 Iona Gardener, Hwlffordd.

Audrey Evans




*Trefnwyr Angladdau*
*C.T. Evans*
Perchnogion Gwyn & Janet Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn
Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas
Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nôs
01970 820 013 gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

## O'r gegin

gan Mair Jones, Trem y Môr

**Pysgodyn gydag Orennau**
4 darn o leden (*plaice*) wedi'i digroeni
Hanner owns o fenyn
1 tun bach o orennau (*mandarin oranges*)
1 llwy fwrdd o sudd lemwn
Halen a phupur

*I addurno:*
Ychydig o gnau almwn wedi'u tostio
Ychydig o bersli
Gwres y ffwrn: 190ºC / Nwy 5
Dysgl

Rhowch y pysgodyn ochr y croen i fyny, yn y ddysgl gydag ychydig o fenyn ar bob un.

Draeniwch yr orennau a'u rhoi dros y pysgod. Gwasgarwch y sudd lemwn drostynt gyda halen a phupur.

Pobwch yn y ffwrn am 20–25 munud. Addurnwch gyda chnau a phersli.



# Cadwch lygad am eich llythyr cofrestru pleidleiswyr

Anogir trigolion lleol i beidio â cholli cyfle i leisio eu barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw drwy sicrhau bod eu manylion cofrestru etholiadol yn gyfredol. Gan y bydd etholiadau yn cael eu cynnal yng Ngheredigion ym mis Mai 2021, mae hwn yn gyfle pwysig i drigolion sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan. Mae'r canfas blynyddol yn sicrhau y gall Gwasanaethau Etholiadol gadw'r gofrestr etholiadol yn gyfredol, gan nodi unrhyw breswylwyr nad ydynt wedi cofrestru neu sydd wedi symud.

Etholiad y Senedd y flwyddyn nesaf fydd y tro cyntaf y bydd pobl ifanc 16–17 oed a dinasyddion tramor cymwys yn gallu pleidleisio. Felly, mae'n bwysig iawn bod y grwpiau hyn o bobl yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol. Dywedodd Eifion Evans, Swyddog Cofrestru Etholiadol: 'Mae'n bwysig bod trigolion yn cadw llygad am negeseuon fel y gallwn sicrhau bod gennym y manylion cywir ar y gofrestr etholiadol ar gyfer pob cyfeiriad yn y sir. Er mwyn sicrhau eich bod yn gallu dweud eich dweud mewn etholiadau sy'n cael eu cynnal y flwyddyn nesaf, dilynwch y cyfarwyddiadau. Os nad ydych chi wedi cofrestru ar hyn o bryd, ni fydd eich enw yn ymddangos yn y negeseuon y byddwn yn eu hanfon. Os ydych chi eisiau cofrestru, y ffordd hawsaf o wneud hyn yw ar lein ar www.gov.uk/register-to-vote, neu byddwn yn anfon gwybodaeth atoch yn egluro sut i wneud hyn drwy'r post. Mae canfas eleni, y mae'n rhaid i ni ei gynnal yn ôl y gyfraith, yn digwydd mewn sefyllfa heriol o ran iechyd y cyhoedd. Rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn ystyried canllawiau iechyd y cyhoedd, gan gynnwys parhau i gynnal pellter cymdeithasol.'

Yn arbennig, anogir pobl sydd wedi symud yn ddiweddar i gadw llygad am y negeseuon ynglŷn â chofrestru pleidleiswyr gan Gyngor Sir Ceredigion a gwirio'r manylion. Mae ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol yn nodi bod y rheini sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar yn llawer llai tebygol o fod wedi cofrestru na'r rheini sydd wedi byw yn yr un cyfeiriad ers amser hir.

Dywedodd Rhydian Thomas, Pennaeth Comisiwn Etholiadol Cymru: 'Mae'n bwysig iawn bod pawb sydd â'r hawl i bleidleisio yn gallu gwneud hynny. Erbyn hyn, mae gan fwy o bobl yr hawl i bleidleisio yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc 16–17 oed a dinasyddion tramor cymwys. Bydd sicrhau eich bod yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'ch awdurdod lleol pan fydd ei hangen yn sicrhau bod y broses yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn y sefyllfa bresennol o ran iechyd y cyhoedd, gan y bydd yn helpu i osgoi'r angen i ganfaswyr ymweld â chartrefi.'

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â chofrestru i bleidleisio ar y wefan yma: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

Gall trigolion sydd ag unrhyw gwestiynau gysylltu â Gwasanaethau Etholiadol Ceredigion ar 01545 572032.

# Hedbangars Byd Natur

## gan Rob Evans

Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fyd natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffitio efo'i gilydd fel jig-so enfawr. Dim ond rhywun fel Sir David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dwi'n siŵr nad oes ganddo fo ateb i bob cwestiwn. Meddyliwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai egsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae wedi rhoi pig groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel hedbangar y byd adar yw cnocellau'r coed. Mae'n aderyn 'high impact' go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n dweud "O go dda w'st ti, mae'r diwrnod wedi bod braidd yn hir a'r gwaith yn 'boring' wrth gwrs, neis bod adra!"

Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i'w big mae math o 'shock absorber' felly does dim rhaid i'w wraig ddod â paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar ynte!




Yn ddiweddar, wrth fynd i'r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnocellau'r coed ar y lawnt, y fam a'r cyw. Roedd y fam yn brysur yn dangos i'r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i golli ac es i, i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohonyn nhw trwy'r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma'r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i'w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o'r fath ac mae'n lun i'w werthfawrogi.

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi'n gweld rhywbeth fel hyn mae'n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau. Dw i'n falch iawn fy mod i wedi tynnu'r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fyddwn wedi difaru peidio mynd i nôl y camera.

# Croesair

## gan Sian Lewis



**ATEBION CROESAIR AWST**
**Ar draws** 7 Miriam 8 Addewid 9 titw 10 drws cefn 11 clusten 12 cacwn 15 paent 17 crwydro 20 Penglais 22 Rico 23 Manila 24 Rwanda
**I lawr** 1 hiliol 2 winwnsyn 3 ymadael 4 larwm 5 herc 6 ail-fyw 13 am y Greal 14 Trostre 16 adegau 18 rocedi 19 Sarah 21 gril
**Geiriau cudd:** Hwyl, haul, heli

**Llongyfarchiadau i enillydd croesair rhifyn Awst sef Gaenor Jones, Danycoed, Aberystwyth.**

**Yn ôl un o'n beirdd, Medi yw 'mis y...........' Pa ddau air sydd ar goll? Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf, yn eu trefn, yn sillafu'r ateb. Anfonwch y ddau air at y.ddolen@gmail.com neu drwy'r post i Gelli Aur, Cwrt y Cadno, Llanilar SY23 4PS erbyn 16 Medi. Mi fydd yr atebion cywir yn mynd i'r het a'r enillydd yn derbyn tocyn llyfr gwerth decpunt.**

**Ar draws**

7. Planhigyn gwyrdd sy'n tyfu fel carped mewn mannau llaith (6)
8. Ynys y Brenin Arthur (6)
9. Cau ag allwedd (4)
10. *Clychau --------,* cân werin (8)
11. Arian rydyn ni'n ei fenthyca i brynu tŷ (7)
12. Anifail sy'n byw yn y môr ond weithiau fe'i gwelwn ar ein traethau (5)
15. ----- dwylo: gwrthod derbyn cyfrifoldeb (5)
17. Cyfnodau byr o amser (7)
20. 'Dof --- -- ---, does gennyf fi....' canodd Dafydd Iwan ar yr albwm *Hoff Emynau.* (3,2,3)
22. Llyo (4)
23. Y wlad lle ganed Handel a Beethoven (6)
24. Arwydd ar dŷ sydd ar y farchnad (2,4)

**I lawr**

1. Edrych ar (6)
2. Aderyn sydd 'ar ben y rhiniog', yn ôl yr hwiangerdd. (5,3)
3. Gwlad: ei phrifddinas yw Tirana. (7)
4. Pwrs i gadw arian (5)
5. Llam (4)
6. Yr anifail mwyaf yn y byd yw'r ------ glas. (6)
13. Adar -'- ----- - hedant i'r unlle. (1'1, 5, 1)
14. Morfran neu filidowcar (7)
16. Crwydro o gwmpas: mynd - -- - -- (1,2,1,2)
18. Gorau ---, --- dysg. (3,3)
19. ---- - gwêl y frân ei chyw. (4,1)
21. Y mur (1,3)


**Siop Llanfarian**
Dewis helaeth o nwyddau
Gwasanaeth dosbarthu i gartrefi - papurau dyddiol a.y.y.b
Ar agor bob dydd o'r wythnos
Galwch i'n gweld
01970 612 067

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio, Chwynu a Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion: 07792457816 / 01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**DEIAN REES**
**Peintiwr ac Addurnwr**
Glannant, Stryd y Capel
Tregaron SY25 6HA
**01974 298 615**
**07900 174 699**
(tecst yn unig)

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth

**HUW GRIFFITH**
**MASNACHWR COED TÂN**
Hefyd gwasanaethau ffensio a thrin coed
ffôn: 01974 241529

**DYLAN TANDY**
01974 272 453
07890 946 555
MUSTANG GUTTER SYSTEM
dylantandy310@hotmail.co.uk
GWTERI ALWMINIWM DI-DOR
SAER COED . GWAITH TO . ADEILADWR . ASIEDYDD

# Ailddechrau mudiadau – 'gyda 'chydig o ddychymyg'

*Erthygl amserol gan Lowri Jones, Fron a ymddangosodd ar wefan Bro360 (https://bro.360.cymru/2020/ailddechrau-mudiadau-gyda-chydig-ddychymyg/)*

Ddydd Gwener cyntaf Awst, fe fues i yn stondin Merched y Wawr ar faes y brifwyl. Fe joies i'r glonc, y te a'r pice ar y maen (gan dim llai na 5 gwahanol gwmni!). A jiw, roedd y tywydd yn ddigon ffein hefyd – bonws ar gyfer dydd Gwener ola'r Steddfod!

Do, fe wnes i ymuno â Changen Merched y Wawr y Brynie, fel rhyw fath o aelod anrhydeddus am y dydd; ac ie, yn ein dychymyg oedd y 'stondin' yn Eisteddfod Tregaron!

Fe benderfynodd Mam, oedd ar fin bennu ei chyfnod fel Ysgrifennydd y Gangen, y byddai'n braf creu rheswm i'r criw o ffrindiau gwrdd. Doedd llawer ohonyn nhw heb weld ei gilydd ers mis Mawrth, pan ddaeth gweithgareddau'r mudiad a phob mudiad arall i ben yn sydyn. A fi oedd y 'Swyddog Diogelwch' – yn gweini mewn masg a menig i wneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n saff.

Fe wnaeth pawb elwa mwy na jyst paned a chacen o'r diwrnod. Roedd yn gyfle i sgwrsio am y pethau bach hollbwysig yna sydd wedi bod yn digwydd yn lleol (pa mor fishi oedd Cei, shwt oedd cymdogion wedi bod yn ymdopi, a faint oedd wyrion ac wyresau'n pryfio!)

Ond roedd hi'n gyfle hefyd i rannu teimladau am gyfyngiadau'r Covid. Y duedd dros y misoedd diwethaf yw ein bod ni'n dueddol o drafod pethau gyda'r bobol ry'n ni'n eu gweld amlaf – y bobol sy'n byw yn ein cartref neu drws nesa, a phobol sydd wedi dewis dechrau cymdeithasu â'i gilydd. Prin yw'r cyfleoedd diweddar i glywed barn pobol sy'n meddwl yn wahanol i ni – pobol sydd heb fod i unman, neu sydd wedi gorfod hunanynysu'n gaeth, er enghraifft.






Un o'r trafodaethau mawr oedd pryd a sut y gallai'r gangen hon o Ferched y Wawr ailddechrau cwrdd. Am ba hyd fydd y tywydd yn caniatáu cynnal pethau mas yn yr awyr agored? Faint fydd yn gallu cwrdd mewn neuaddau'n saff pan fyddant yn ailagor? Oes lleoliadau eraill all wneud y job?

Maen nhw'n gwestiynau pwysig y mae arweinwyr ein cymunedau ledled Cymru yn eu hystyried. Yn draddodiadol, dechrau Medi yw dechrau'r flwyddyn ddiwylliannol newydd. Dyma pryd mae mudiadau a chlybiau lleol yn arfer ailddechrau ar ôl hoe yr haf – er mwyn cael achlysuron cyson i edrych mlaen amdanynt trwy'r gaeaf hir.

Eleni, pa gymorth fydd yn cael ei roi i'n harweinwyr er mwyn eu galluogi i ailddechrau un o elfennau sylfaenol cymdeithas – ein diwylliant? Mae llawer iawn o sôn wedi bod am iechyd dros y misoedd diwethaf. Ac erbyn hyn, mae'n teimlo fel pe bai mwy fyth o sôn am yr economi, wrth i gyrchfannau twristiaid agor eu breichiau led y pen i ddenu ymwelwyr i'n bröydd glan môr.

Ond faint o sylw sy'n cael ei roi i effaith Covid ar gymdeithas? Ble mae 'cynnal diwylliant a ffordd o fyw' yn rhestr blaenoriaethau'r bobol mewn grym?

Gydag adroddiadau bod y Cyfnod Sa' Draw yn cael effaith ar iechyd meddwl pobol, fe ddylai ein llywodraethau roi cymorth go iawn i alluogi mudiadau i ailddechrau yr hydref hwn.

Ond beth os na wnân nhw?

Efallai bod angen i ni wneud rhywbeth tebyg i Ferched y Wawr y Brynie – defnyddio ein dychymyg i ffeindio ffordd o wneud beth sydd angen ei wneud. Dywedodd rhywun yn rhywle fod hawl cael hyd at 30 o bobol ynghyd dan do o'r penwythnos diwetha mlaen, os ydych yno ar gyfer 'priodas'?!

P.T PRESERVATION Ltd
Arbenigwr trin tamprwydd mewn welydd, pryfed mewn pren, pydredd pren a gosod clymau wal mewn welydd dwbl.
GWASANAETH CYMRAEG | CWMNI LLEOL
PETER TANDY
01974 272 310 | 07866 078 221




Y DDOLEN
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Nodiadau Natur

*gan Anne M. Davies ac Ian Sant (Ffotograffydd)*

Gyda threigliad y tymhorau mae'n anochel fod ailadrodd yn digwydd ond nid yn unig y feirws sydd wedi trawsnewid ein byd eleni. Mae byd natur wedi cael mwy o sylw nag erioed ac mae wedi bod yn fendith i ddilyn y patrymau o ddiwedd y gaeaf i ganol yr hydref. Efallai fod gen i ragfarn ond rwy'n tybio nad oes gwlad i gymharu â Chymru fach am gyfoeth ei hamrywiol gynefinoedd naturiol.

Heb grwydro ymhell o'm cynefin innau mae rhyw newydd wyrth wedi taro ar lygad a chlyw yn gyson drwy'r misoedd.

Er ei fod yn gyfarwydd erbyn hyn mae chwibaniad y Barcut yn dal i roi gwefr ac roedd clywed ymateb y cyw yn galw am fwyd yn ychwanegu at y boddhad.



Yn ystod y dyddiau hafaidd tesog rydw i wedi clywed mwy o sŵn Sioncyn y Gwair yn y caeau yma ac wedi cael ambell un yn cael ei ddenu at y ffenest. Ond rwy'n falch nad oedd yn cael mynediad.

Er cymaint y croeso iddo yn ehangder y caeau rwy'n ofni mai digon difaol fyddai mewn ystafell fach petai yn dechrau teimlo'n llwglyd. Wedi'r cyfan, cefnder yw e' i'r Locust ac mae'r hanesion o gyfandir Affrica eleni wedi bod yn ddirdynnol. Mae hyd yn oed gweld llun y Sioncyn yn cyfleu rhyw bŵer anghyffredin. Nid rhyfedd fod y proffwyd Joel yn eu disgrifio fel byddin ar feirch yn difa popeth o'i blaen!

Mae cwmni bach digon difaol wedi ymddangos ar y Meri a Mari hefyd yn ddiweddar. Nid yw hynny yn syndod gan fod Ieir Bach yr Haf gwynion wedi bod yn hedfan ers wythnosau. Roeddwn i'n gwybod eu bod yn disgyn ar y dail ac ar ddail y Bresych Piws i ddodwy eu hwyau. Mae'r Iâr fwyaf yn dodwy clwstwr o wyau melyn dan y dail ac mae'r lindys yn batrymog du a gwyrdd. Un wy ar y tro mae'r iâr leiaf yn ei ddodwy, hwnnw yn felyn hefyd ond mae'r lindys yn wyrdd yn unig. Mae'r lindys yma yn fwy anodd ei weld hyd yn oed ar wyneb y ddeilen gan fod y cuddliw mor dda.

Mae'n gorffwyso ar hyd y gwythiennau, yn enwedig y wythïen ganol. Wrth gwrs maen nhw'n llai niferus ar y ddeilen na'r lleill ac yn haws delio gyda nhw. Rydw i wedi ceisio arbed y bresych ond mae lindys yr Iâr Wen fwyaf yn grwpiau ar gefn dail y Meri a Mari. Gan fod y dail mor fawr ac yn cuddio'r blodau yn aml maen nhw'n cael pardwn am y tro. Byddan nhw'n dringo wedi tyfu'n llawn i dreulio'r gaeaf fel chwiler gyda chasyn caled, dan rhyw sìl ffenest neu rywle tebyg. Gobeithio bydd rhai'n goroesi i hedfan yr haf nesaf eto ond bydd rhai wedi bwydo rhyw aderyn bach neu greadur newynog arall yn ystod y gaeaf.

Mae yna wyfyn difaol sydd wedi ennill y dydd arnaf i bob blwyddyn ac wedi nychu'r llwyni Eirin Mair [gwsberins]. Lindysyn bach gwyrdd yw hwn hefyd ac mae wedi difa dail y llwyni bob blwyddyn cyn i fi ei weld. Eleni mae'r cloi mawr wedi rhoi mantais i fi a gwae iddyn nhw! Mae rhain yn gorffwyso ar hyd ymyl y dail ac er fod eu cuddliw yn effeithiol iawn mae modd eu pigo allan yn weddol rwydd wedi eu gweld. Eleni mae dail ar y llwyni am y flwyddyn gyntaf ers sbel ond wrth gwrs yn rhy hwyr i'r blodau. Gallaf gyfrif ar un llaw faint o ffrwyth gefais i ar dri llwyn.

Mae gobaith bydd mwy o ffrwyth y flwyddyn nesa os gallaf gofio delio gyda'r gweilch yn ddigon buan. Gan nad oes cemegau yn cael eu defnyddio yn yr ardd yma, bys a bawd yw hi bob tro. Mae'r enillion yn nhermau'r adar wedi bod yn wobr gysur ond am ryw reswm mae'r Draenog wedi ein gadael, am y tro beth bynnag. Trist oedd gweld dau gorpws bach ar y ffordd wrth i ni deithio dros y bryniau i gyfeiriad dwyreiniol yn ddiweddar.

Ar y daith honno beth bynnag, wrth ddringo lôn fach wledig, roedd yn bleser gweld blodyn oedd yn arfer bod mor gyffredin ar y ffarm ble bydden ni'n treulio rhan o'n gwyliau ysgol. Tamaid y Cythraul yw ei enw swyddogol ond yn fy nhyb i nid yw'r enw yn gwneud cyfiawnder â'r blodyn glas pert fel pêl fach ar frig y coesyn. Enw arall arno yw Bara'r Cythraul neu Caswenwyn. Mae'r enwau yma yn rhoi syniad ei fod yn wenwynig ac mae ei wreiddyn yn rhoi amcan am y syniad o fwyd. Mae'r gwreiddyn tanddaearol yn tyfu'n syth i lawr ond yn gorffen yn bwt fel petai wedi ei gnoi i ffwrdd. Mae'n deyrnged i ddychymyg ein cyndeidiau fod yr enw mor ddisgrifiadol. Er hynny mae'r planhigyn yma wedi bod yn bwysig i un o'r Ieir Bach yr Haf sydd wedi mynd yn brin iawn erbyn hyn – oherwydd y diffyg yn y niferoedd o'r planhigyn sydd yn fwyd i'r lindys. Roedd y Pili Pala yma yn arfer bod yn heidiau ar gaeau gwlyb y ffarm. Un frith yw hi, Britheg y Gors yw ei henw ond nid wyf fi wedi gweld un ers dros hanner can mlynedd!

Yn gwmni i Fara'r Cythraul ar gloddiau'r ucheldir roedd un o flodau bach harddaf diwedd yr haf sef Clych yr Eos. Mae'r rhain bob blwyddyn yn harddu'r cloddiau ar ran uchaf y ffordd fawr rhwng Blaenplwyf a Llanrhystud ac fel petai nhw wrth eu bodd yn cael eu chwythu yn ddidrugaredd gan y gwynt. Mae eu coesau mor fain ac eiddil yr olwg ond yn amlwg yn wydn a'u cryfder yn y ffaith eu bod yn plygu gyda'r gwynt yn lle ei wrthsefyll. Nid oes unrhyw berthynas agos rhwng y clychau yma a'r rhai sy'n glasu'r coedydd yn y gwanwyn. Mae Cloch yr Eos yn perthyn i deulu bach y Campanula a'r enw swyddogol arno yw Cloch y Bugail a'r enw hwnnw yn ein hatgoffa o'i gynefin gyda defaid yr ucheldir ac o alwedigaeth sydd hefyd yn prinhau.

Brodyr EVANS Bros
PRIF FASNACHWYR
MASSEY FERGUSON YN NE,
GORLLEWIN A CHANOLBARTH CYMRU
Cefnmabws,Llanrhystud: 01974 272 260
Crosshands: 01269 831 020
Machynlleth: 01654 703 440
Hwlffordd: 01437 762 736
www.brodyrevansbros.co.uk

KANGALOOS
Gwasanaeth Hurio
Toiledau Symudol a
Gwacáu 'Septic Tanc'
Cysylltwch â Iwan ar
01974831266 neu
07855364947

inc
13 Heol y Bont, Aberystwyth
01970 626200
- llyfrau Cymraeg
- cerddoriaeth Gymraeg
- cardiau Cymraeg
- cylchgronau Cymraeg
- crysau-t Cymraeg
- papurau bro
Croesewir archebion gan unigolion ac ysgolion

CARPEDI
K&M
Ffôn:
01974 251656
Ken:
07970 045129
Meirion:
07811 479791
GWASANAETH
GWERTHU
A GOSOD

Cofiwch
gefnogi eich
busnesau
lleol

# Mynd am dro

Bu darllen 'Fy hoff dro' gan Mair Carruthers yn y rhifyn diwethaf o'r DDOLEN yn ysbrydoliaeth i minnau wisgo fy esgidiau cerdded a mynd am dro! A dyna yn union a wnes un prynhawn braf ganol Awst a throi i'r un cyfeiriad. Cychwyn o Ben Bwlchcrwys a chyfeirio fy nghamrau am Drisant gan droi i'r dde ymhen tipyn a dilyn yr arwydd am Lanfihangel-y-creuddyn.

Ymhen byr o dro, ar ôl pasio ben lôn Blaenmagwr, sylwais ar lwyni bychain, tynn, ar ochr y ffordd a rheiny yn drymlwythog o lus duon bach, a daeth ton felys o atgofion yn ôl i mi wrth ail-fyw'r profiad o hela llus. Byddem wrth ein bodd fel plant yn mynd i hela'r ffrwyth yma, er mai tasg llafurus oedd hi i gael basnaid gan mor fân oedd y ffrwyth, a'r ffaith ein bod ninnau fel plant yn bwyta cymaint nes bod ein bysedd a'n bochau yn biws!

Dal ati i gerdded gan ryfeddu at wyrddni a ffresni'r bryniau, a gyda llygad amaethwr at stoc, rhaid oedd edmygu'r defaid penfrith o'm cwmpas. Dyma ddafad sy'n nodweddiadol i fryniau Trisant ac ar hyd y blynyddoedd bu arwerthiannau mamogiad penfrith Pontarfynach yn rhai llewyrchus iawn. Hyfryd oedd ei gweld yn ei chynefin, a da yw deall fod yna fridwyr ifanc, newydd yn perthyn i Gymdeithas y Defaid Penfrith y dyddiau hyn.

Erbyn hyn rown i o fewn cyrraedd i Garreg Gwelmihangel



Yr olygfa dros fanc Alltfedw ger Carreg Gwelmihangel.

(neu Garreg Gwyllfihangel fel y cyfeirir ati hefyd), a dyma frasgamu ymlaen er mwyn cael cyrraedd y tirnod hwn. O fan hyn y cewch chi'r olwg gyntaf ar Lanfihangel-y-creuddyn sy'n nythu'n dawel oddi tano. Ar ddiwrnod clir mae'n olygfa gyfareddol gyda dyffryn Ystwyth yn ymledu tua'r môr a'r Mynydd Bach a'i melinau gwynt fel milwyr gwarchodol yn y cefndir. Mae yna hen chwedl yn perthyn i'r garreg hon, fe'i clywais pan yn blentyn ysgol a chyfeirir ati yng ngwaith Meyrick yr hanesydd. Trigai merch ifanc brydferth yn yr ardal ac roedd llawer o fechgyn ifanc lleol yn ceisio ennill ei serch. Ymhlith y rhain roedd dau lanc cydnerth a'r ddau yn athletwyr da. Ni fedrai'r eneth ddewis rhwng y naill a'r llall, felly gosododd dasg iddynt. Y dasg oedd rhedeg o ddrws Eglwys Llanfihangel i fyny i gopa Carreg Gwelmihangel. Trefnwyd y ras i ddilyn gwasanaeth fore Nadolig yr Eglwys a daeth tyrfa ynghyd i wylio'r digwyddiad. Aeth y ferch ifanc i fyny i ben y garreg i ddisgwyl yr enillydd gan wybod mai hwnnw fyddai ei chymar oes. Ond methodd yr un o'r ddau athletwr gael blaen ar y llall a gorffenwyd y ras yn gwbwl gyfartal. Bu'r dasg yn ormod i'r ddau ohonynt, oherwydd yn ôl y chwedl syrthiodd y ddau yn farw yn y fan a'r lle. Cawsant eu claddu yno, ac mae eu beddau i'w canfod ychydig lathenni o'r ffordd yn ymyl yr hen warclawdd sy'n rhedeg i'r gogledd. Mor debyg yw'r chwedl hon i chwedl adnabyddus Guto Nyth Brân!

Ar ôl hoe fach ar garreg Gwelmihangel rhaid oedd ailgydio yn y daith. Taflu golwg ar lyn Alltfedw islaw a chofio fel yr arferai fy nhad adrodd wrthyf am yr hwyl a gâi ef a'i gyfoedion wrth ddod yn griw o'r ysgol i nofio yn y llyn. Doedd dim sôn am reolau iechyd a diogelwch y pryd hynny!

Dilyn y ffordd wedyn wrth iddi nadreddu drwy'r tiroedd agored hyd nes cyrraedd grid gwartheg a ben lôn Cwmagwr. Mae'r enw Cwmagwr wedi serio yn y cof ers dyddiau Ysgol Sul, gyda'r diweddar athrawes ymroddgar, Mrs Sybil Tudor, yn adrodd wrthym hanes yr emynydd, John Hughes, a gafodd ei eni yng Nghwmagwr yn y flwyddyn 1842. Fe gâi ei adnabod o dan ei enw barddol 'Glanystwyth'. Cyfansoddodd nifer o emynau a chaiff ei gofio fel emynydd, pregethwr, beirniad, nofelydd a bardd. Bu farw yn 1902 yn drigain oed.

Prysuro ymlaen heibio ben lôn Penbanc a ben lôn Caegwyn, Waunfyddau a Tynfron dêl a'r ffordd yn disgyn yn sydyn ger mynedfa Melin Ucheldre hyd nes cyrraedd gwastadedd Plas Creuddyn (Hen Ficerdy) a Phendre. Ac yn rhyfeddol o sydyn rown i wedi cyrraedd sgwâr Llaningel.

Yna troi fy ngolygon i gyfeiriad rhiw Sarnau, cymal olaf y daith, a honno yr un mor serth ag erioed!

**Elen Lewis**

## Llanfarian

**Pen Blwydd Hapus**

I Ken Reynolds, Dyffryn Paith, Pontllolwyn ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed ganol Awst. Mae Ken a Christine Reynolds yn enwog ledled y wlad fel hyfforddwyr lleisiol i beth wmbredd o berfformwyr enwog. Mae Christine hithau wedi bod yn ffigwr amlwg ar lwyfannau cenedlaethol fel cyfeilydd gwych i berfformwyr.

**Marwolaeth**

Trist yw cofnodi marwolaeth y diweddar David Hughes Davies, Morawel, Llanddarog, Caerfyrddin yn 90 oed ar 26 Gorffennaf. Bu'n byw am gyfnod yn yr wythdegau yn Morawel, Figure Four a bu ef a Menna, ei wraig yn weithgar a chefnogol i bob gweithgarwch yn y fro. Ganwyd ef yn Chelmsford ond symudodd i Landdewi Brefi yn 12 oed a mynychu Ysgol Sir Tregaron. Penodwyd ef yn Brif Weithredwr Dyfed yn 1988 a symud i fyw i Landdarog. Roedd yn berson diymhongar iawn a daeth anrhydeddau lu i'w ran – ef oedd Cadeirydd a symbylydd y Fenter iaith gyntaf (Cwm Gwendraeth) yng Nghymru; bu'n allweddol yng nghweithgarwch Sefydliad y Galon yng Nghymru; yn aelod o'r Orsedd; yn Gymrawd o Goleg y Drindod Dewi Sant ac yn Llywydd Anrhydeddus Côr Meibion Llanelli, heb sôn am ei gefnogaeth diflino eto i'w gymuned leol yn Llanddarog. Talwyd teyrngedau lu iddo fel 'person annwyl a didwyll ac arweinydd da yn ei gymuned a thu hwnt'. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol preifat yn unol â'r cyfyngiadau yng Nghapel Newydd, Llanddarog o dan arweiniad ei weinidog y Parch Nicholas Bee ar ddydd Mercher, 5 Awst ac oddi yno i Gapel y Cwm, Cwmsychpant, Ceredigion.

## Pontarfynach

Dymuniadau gorau i ieuenctid yr ardal sydd yn gadael am y coleg.

**Cydymdeimlo**
Unwaith eto, rhaid cydymdeimlo â Jane Hopkins, Tŷ'r Wawr yn ei phrofedigaeth o golli aelod arall o'r teulu sef cyfnither yn yr Amwythig.

**Edrych yn ôl**
Yn ystod y cyfnod clo yma mae llawer ohonom wedi cael amser i edrych drwy ddroriau a chypyrddau gan ddarganfod pethau sydd heb weld golau dydd ers amser. Dyma ddod o hyd i ddarn wedi ei dorri allan o Adran Y Plant yn *Y Cymro* yn 1934. Testun y gystadleuaeth oedd 'Ar Wyliau'r Pasg' ac enw un o'r enillwyr oedd Lizzie Morgan, Ty'n Rhyd, Pontarfynach (Lisi Jenkins, Ty'n Castell). Mae'n werth ei roi ar gof a chadw.

**Ar Wyliau'r Pasg - Bugeilio**
Ni allaf feddwl am bertach lle yn y byd na'r fan lle treuliais i fy ngwyliau Pasg, gartref gyda'm rhieni ar y fferm, rhwng pinaclau Pumlumon ac yng ngolwg dyffryn tlws Rheidol. Y mae'r golygfeydd yn amrywio'n ddiderfyn ac yn llawer mwy byw a symudol nag unrhyw ddarluniau byw!

Ddoe tywynnai'r haul ar y mynyddoedd gan eu gwisgo fel mewn mantell o aur. Heddiw y mae'r gwynt yn ymlid y glaw yn wyllt o glogwyn i glogwyn. Felly y bydd y golygfeydd yn newid yn gyson.

Fy nghwmni i fel arfer oedd Dawn a Meuryn, plant bach y tŷ drws nesaf. Treuliasom lawer o'n hamser yn chwarae ond y rhan fwyaf yn bugeilio'r ŵyn bach. Y fath hwyl a gaem yn rhoi llaeth i'r rhai gweiniaid, a Meuryn, pump oed, yn dal ambell un, pan oedd yn cysgu'n drwm a'i anwylio, ac edmygu'i wisg esmwyth gwynach na'r eira. Dyna bethau bach tlws, ac annwyl, gyda'r lleisiau bach tyner yn galw 'Me, Me', a'r defaid yn ateb gyda'u 'Ba, Ba'.

Felly treuliais i fy ngwyliau Pasg, yn yr awyr agored a'r haul. Chwith iawn yr wythnos hon yw gorfod aros tu fewn i furiau'r ysgol.

# Chwilair

## gan Sharon Howell

Mae'r geiriau a'r ymadroddion isod yn gysylltiedig â mis Medi. Pan ddewch o hyd iddyn nhw i gyd, bydd y llythrennau sy'n weddill yn sillafu enwau arwyddion y sidydd neu'r sêr ar gyfer y mis.

**aelwyd glyd, caserol, cnau, concyrs, cyhydnos, cylch, cynhaeaf, dail, diolchgarwch, gerddi, ha' bach Mihangel, hel mwyar duon, jam, lliwiau, natur, perllan, picls, rhewi llysiau, tywydd, yn ôl i'r ysgol**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | Y | F | S | R | Y | C | N | O | C | O | L |
| U | O | F | A | E | A | H | N | Y | C | D | O |
| A | R | U | T | A | N | G | H | R | I | D | G |
| I | W | Y | D | D | E | Y | N | O | T | Y | S |
| S | A | R | A | R | D | N | L | Y | L | L | Y |
| Y | S | I | Dd | N | A | Ch | W | O | Ll | G | R |
| Ll | L | I | O | Ll | G | Y | R | I | Ch | D | I |
| I | C | S | R | A | Dd | E | W | L | G | Y | L |
| W | I | E | R | L | S | I | Y | M | O | W | O |
| E | P | W | R | A | A | C | I | A | L | L | N |
| Rh | Ch | A | C | U | A | N | C | J | N | E | Y |
| L | E | Ng | A | H | I | M | Ch | A | B | A | H |

## Llanfihangel-y-Creuddyn

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Megan Lewis, Sarnau Fawr ar ei dyweddïad â Dyfed Davies, Eisteddfa Fawr, Brynberian, Crymych. Pob hwyl i'r dyfodol.

**Pen blwydd**
Dymuniadau gorau i Caitlin Morse, Y Ffarmers ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeugain oed.

**Eglwys San Mihangel**
Braf yw nodi bod yr Eglwys wedi sicrhau grantiau pellach o £21,000 tuag at y prosiect o'i hatgyweirio a gwarchod ei hadeiladwaith hanesyddol. Bydd Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi yn cyfrannu £15,000 a'r Ymddiriedolaeth ar ran Sefydliad Wolfson yn cyfrannu £7,000. Mae'r grantiau hyn yn darparu cyllid cyfatebol i'r grantiau sydd eisoes wedi eu sicrhau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Chyngor Sir Ceredigion.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i holl ieuenctid yr ardal ar lwyddo yn eu harholiadau Lefel A, AS a TGAU. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.


*Siop Blodau'r Bedol Florist*

*ENILLYDD MEDAL AUR SIOE CHELSEA YN 2016*



Moelifor Terrace, Llanrhystud SY23 5AA
**Ebost blodaurbedol@aol.com**
**Ffôn 01974 202233**
**Symudol 07763 282548**

- *Arddangoswr NAFAS cymwysedig*
- *Trefnydd blodau arbenigol ar gyfer priodasau*
- *Pob Achlysur Arbennig*
- *Angladdau*
- *Gweithdai Trefnu Blodau*
- *Cynigir Gwasanaeth Personol i ateb eich holl ofynion*
- *Gellir trefnu ymweliadau yn y cartref yn ystod profedigaeth i drafod blodeugedau*


## Cnwch Coch

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Carwyn Williams, Tŷ Capel, Rhydyfagwyr ar ennill gradd mewn Busnes o Brifysgol Abertawe. Dymuniadau gorau i ti Carwyn am y flwyddyn i ddod wrth i ti barhau gyda dy astudiaethau yn dilyn cwrs Meistr yn Abertawe.

**ROBERT RATTRAY**

CIGYDD TEULU
8 Y Ffynnon Haearn
Aberystwyth
*Cig o ffermydd lleol.*
*Galwch am dyfynbris i'r rhewgell.*
**Ffôn: 01970 615353**

**Lloyd Herbert & Jones**
Tir Fesurwyr Siartiedig
Arwerthwyr
a Stâd Fasnachwyr
10 Y Ffynnon Haearn
ABERYSTWYTH
Ffôn 01970 624328 neu 612559

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

morlan.aber@gmail.com
Morlan,
Morfa Mawr,
Aberystwyth
SY23 2HH
01970 617 996

# Pecynnau lles i bobl ifanc 16-24 oed

Mae 'Cam Nesa' yn rhan o Raglen Weithredol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020 ac yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16 a 24 oed drwy roi opsiynau iddynt gael mynediad at ystod o gymorth personol wedi'i deilwra a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwaith i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae tîm 'Cam Nesa' Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn brysur yn rhoi pecynnau lles at ei gilydd i'w defnyddwyr. Mae'r pecynnau lles wedi'u greu i gefnogi pobl ifanc a allai fod yn teimlo'n unig, yn ynysig neu'n fregus yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r Pecynnau lles wedi cael eu dosbarthu i bobl ifanc yng Ngheredigion yn ystod yr wythnosau diwethaf, dros 3 mis ers i'r pandemig ddechrau gan arwain at newidiadau mawr i'n ffordd arferol o fyw. Drwy gydol y pandemig mae defnyddwyr hefyd wedi derbyn galwadau wythnosol yn rhan o wasanaeth Cadw mewn Cysylltiad Porth Cymorth Cynnar, a'r gobaith yw y bydd y pecynnau lles yn cefnogi'r gwaith a wnaed eisoes gan y gwasanaeth hwn drwy roi rhywfaint o gysur a sicrwydd i bobl ifanc Ceredigion.

Roedd y pecynnau lles yn cynnwys cylchlythyrau, taflenni, manylion cyswllt pwysig, llythyrau




gwybodaeth, posau, papur newydd, hufen dwylo, pêl straen, adnoddau celf a phensiliau lliw i ymlacio, siampŵ/jel cawod, brws a phast dannedd, cynhyrchion misglwyf, danteithion a cherdyn â dyfyniad ysgogol arno, y cyfan mewn bag cotwm y gellir ei ailddefnyddio.

Dywedodd un defnyddiwr 'Cam Nesa' a dderbyniodd becyn lles, 'Diolch yn fawr am y pecyn lles. Mae'n garedig iawn diolch yn fawr iawn!'

Dywedodd defnyddiwr arall 'Diolch am y pecyn lles, roeddwn wrth fy modd gyda'i gynnwys, yn enwedig y siocledi.'

**Afan Electrical Limited**
NICEIC APPROVED CONTRACTOR — UKAS PRODUCT CERTIFICATION 118

**Gosod a chynnal systemau trydanol**
- Gosod larymau tân a'u cynnal
- Goleuadau argyfwng
- PAT (profi offer cludadwy)
- Profi ac arolygu rheolaidd
- Gosod a chynnal systemau teledu cylch cyfyng (CCTV)
- Systemau dŵr a gwresogi
- Gosod ceblau rhwydweithiau cyfrifiadurol a'u hardystio

**Ffôn:** 01970 630202
**E-bost:** enquiries@afanelectrical.co.uk

**CPS CROSSWOOD PROPERTY SERVICES Ltd**
**Adeiladwr Cyffredin**
Registered Heating Business — OFTEC — Gas Safe Register


- Cawodydd mynediad rhwydd - stafelloedd gwlyb
- Adnewyddu stafelloedd ymolchi
- Gwresogi olew a gwaith plymio
- Adnewyddu eiddo
- Gwaith gosod teils
- Gosod lloriau diogelwch

**Ffôn:** 01970 626609
**E-bost:** enquiries@crosswoodpropertyservices.co.uk

AFAN ABLEDD CYMRU
AFAN ABILITY WALES
**Cefnogi bywyd annibynnol ar draws Canolbarth Cymru**




&
HAMDDENA AWYR AGORED AFAN

**Ffôn:** 01970 615400
**E-bost:** sales@afanbility.wales

**Ystafell arddangos ar agor yn:**
Uned 25
Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3JQ
(Ar bwys Canolfan ailgylchu gwastraff cartref)

**Oriau agor:**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun - Dydd Iau: | 10-7 |
| Dydd Gwener - Dydd Sadwrn: | 10-5 |
| Dydd Sul: | 10-4 |

# Llanilar

Gohebydd: Beti Griffiths, Lleifior, Cwm Aur; Iola Alban

**Rydym yn chwilio am Ohebydd newydd. Os oes diddordeb gyda chi, cysylltwch â'r Cadeirydd (tud. 2).**

**Diolch**
Dymuna Rowland Jones, Afallon, Dolfelen, Llanilar ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn a chardiau a dderbyniodd tra yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Singleton am dair wythnos ar ddiwedd mis Mehefin.

**Pen blwydd 75 mlynedd gorffen y Rhyfel yn Japan**
Ar ddydd Sadwrn, 15 Awst, diwrnod dathlu pen blwydd 75 mlynedd ers gorffen y rhyfel yn erbyn Japan, trefnwyd seremoni fechan ger Cofgolofn Llanilar pryd y gwelwyd Tudur Smith o 1 Dolfelen, Llanilar yn seinio'r Galwad Olaf ac yna dwy funud o dawelwch gyda Galwad y Bore i orffen.

Mae Tudur yn chwarae ym Mand Pres Aberystwyth a rhaid diolch iddo unwaith eto am ei wasanaeth.

**Capel Carmel**
*Addoli yng Ngharmel*
Erbyn hyn rhoddwyd caniatâd i ni ystyried ailddechrau cynnal oedfaon yn y capeli ond o dan reolau diogelwch llym.

Wedi ystyried y sefyllfa yn ofalus a mesur a phwyso goblygiadau'r rheolau llym, penderfynodd y blaenoriaid mai doeth fyddai peidio â chynnal oedfaon yng Ngharmel o hyn i ddiwedd y flwyddyn. Byddwn yn ailystyried y sefyllfa erbyn dechrau 2021 ac yn gobeithio medru croesawu pawb yn ôl i gydaddoli bryd hynny.

Gobeithiwn fedru trefnu i dderbyn y cyfraniadau at Y Weinidogaeth am eleni. Fe gaiff pawb eu hysbysu am y drefn y bwriadwn ei gweithredu i wireddu'r bwriad hwn maes o law. Rydym yn hyderus y bydd pawb yn gwneud ymdrech arbennig, pan ddaw'r amser, i anfon eu cyfraniadau atom.

Nodwn hefyd na fydd Y Gymdeithas yn cyfarfod ar hyn o bryd.



Tudur Smith ar ddiwrnod cofio 75 mlynedd ers diwedd y rhyfel yn Japan.

*Cydymdeimlad*
Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant â Miss Ann Evans, Glynwern, a gollodd ei chwaer Mrs Eluned Watkin yn ddiweddar, hithau yn un o blant Carmel. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â'r cysylltiadau teuluol eraill sef teuluoedd Tynberllan, Rhosawel, Rhosybarcut, a Rhos Goch, heb anghofio'r chwaer arall sef Mrs Margaret Harries, Y Barri. Bu angladd Eluned ym mynwent Capel Penmorfa, Sarnau, ddydd Sadwrn, 15 Awst yn breifat yn ôl y gofynion presennol.

*Llongyfarch*
Roedd hi'n braf iawn gweld llun o grefftwaith Mirain Griffiths, Blaen Gader, yn rhifyn Awst Y Ddolen. Roedd hi wedi cynrychioli Clwb Ffermwyr Ifanc Llangwyryfon yn y Rali Rithiol ac wedi paratoi cacennau deniadol iawn. Llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant a dymunwn yn dda iddi yn ei menter busnes newydd yn paratoi cacennau ar gyfer pob math o achlysuron.

Llongyfarchiadau hefyd i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanilar sy'n glwb newydd ac wedi gwneud yn dda iawn yn y Rali a hynny dan arweiniad rhai o bobl ifanc ac aelodau Carmel.

Uchafbwyntiau'r mis ar
**BroAber360.cymru**


**GAIR GAN YR YSGOGYDD**

Helo bawb! Gyntaf oll, dw i'n gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn yn ystod y cyfnod ma. Er gwaetha'r Covid, cafodd BroAber360 lansiad digidol llwyddiannus yn ddiweddar, a dyma gip ar y straeon poblogaidd ar eich gwefan fro dros y mis diwethaf. Diolch i bob un ohonoch sydd wedi bod yn creu! Dan

**YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN ABERYSTWYTH: GOLWG YN ÔL**

Diolch i Wiliam Howells am ei luniau o Steddfod Genedlaethol Aberystwyth ym 1992. Pa ffordd well o edrych ymlaen i flwyddyn nesa', na edrych nôl ar y tro olaf roedd y Brifwyl yn ein bro?

**DYSGU SGIL NEWYDD YN Y CYFNOD CLO**
Beth y'ch chi di bod yn ei wneud dros y cyfnod clo? Bu Beth Jenkins yn dysgu sut i ddatrys Ciwb Rubiks - a dyma hi'n cwblhau'r dasg mewn llai na dwy funud!



**CERDDI'R EISTEDDFOD GOLL**

Mae hi di bod yn Awst tipyn tawelach na'r arfer. Ond hyd yn oed heb Steddfod rydym dal yn gallu mwynhau cerddi newydd - diolch i Eurig Salisbury am y clip sain yma o'i gerdd am y Steddfod Goll.

**Ffili aros tan y papur nesa'?**
**– BroAber360.cymru**

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Trefenter

**Sioeau Rhithiol**
Llongyfarchiadau mawr i Gwenllian Evans, Rhosfach ar ei llwyddiant mawr mewn Sioeau Rhithiol gyda'i diadell o ddefaid Jacob [*gw. y llun ar y dudalen flaen*]. Mae'n braf fod y Sioeau Rhithiol yma yn cael eu cynnal yng nghanol yr amser pryderus yma rydym ynddi ar hyn o bryd. Mae'n dal diddordeb yr ifanc a hefyd yn rhoi'r cyfle i'r anifeiliaid gael eu harddangos ar yr adeg iawn o'u tyfiant. Da iawn ti Gwenllian. Dal ati.

Llongyfarchiadau hefyd i Marian Hamer, Bryncewyll sydd wedi cael sawl gwobr gyda'i chrefft a choginio yn y Sioeau Rhithiol.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau gogyfer â'r dyfodol i bobl ifanc yr ardal sydd wedi derbyn canlyniadau eu harholiadau yn ddiweddar. Mae hwn yn gyfnod anodd a rhyfedd iawn i bob un ohonynt ac rydym yn ymfalchïo yn eich llwyddiant ac yn eich llongyfarch chi'n fawr. Pob hwyl i'r rhai hynny a fydd yn mynychu colegau ac yn dechrau ar eu gyrfa. Dymuniadau gorau hefyd i bawb sy'n mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi.

# Pen blwydd Hapus



Pen Blwydd Hapus i Jac Osian Evans, Llwyn Onn, Llanafan a fydd yn 4 oed ar 5 Medi. Mwynha dy ddiwrnod! Oddi wrth Mam, Dad, Mam-gu a Tad-cu.



Pen Blwydd Hapus i Tomos Hopkins, Erwtomau, Pisgah a fydd yn 10 oed ar 9 Medi.

## Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,

**Marw Heb Ewyllys**

Heb ewyllys, mae eich ystad yn atebol i'r gyfraith. Mae'r Rheolau Marwolaeth Heb Ewyllys yn rhestru mewn trefn benodedig y perthnasau gwaed hynny a fyddai'n etifeddu. Mae'r rhestr hon yn gymharol gyfyng ac os nad oes unrhyw un o'r perthnasau a benodir yn y rhestr wedi eich goroesi yna aiff eich holl eiddo i'r Goron.

Heb ewyllys, os ydych chi'n briod a bod gennych blant a bod gwerth eich ystad yn fwy na £270,000, ni fydd eich gŵr neu wraig yn etifeddu popeth. Byddant yn etifeddu £270,000 a rhennir y gweddill yn gyfartal rhyngddyn nhw a'ch plant. Os yw gwerth eich cartref yn fwy na £270,000 nid yw hyn yn ddelfrydol ac fe all achosi trafferthion mawr.

Mae ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi benodi gwarchodwyr ar gyfer plant ifanc. Heb benodiad fel hyn gallai fod anghytuno mawr ynglŷn â phwy fydd yn gofalu amdanyn nhw ar ôl eich marwolaeth.

Heb ewyllys, oni bai eich bod yn briod gyda'ch partner neu mewn partneriaeth sifil gyda nhw, ni fydden nhw'n cael dim byd. Caiff llysblant nad ydych wedi'u mabwysiadu ddim byd 'chwaith os nad oes ewyllys. Mae gwneud ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi ddarparu ar gyfer teuluoedd estynedig.

Mae ewyllys hefyd yn eich galluogi i nodi dymuniadau penodol ar gyfer eich angladd. A ydych am gael eich claddu neu i'ch corff gael ei losgi? Efallai bod gennych gyfarwyddiadau penodol ynglŷn â lle y dymunwch gael eich claddu neu lle y dymunwch i'ch gweddillion gael ei gwasgaru.

Mae gwneud ewyllys gan wybod eich bod wedi nodi eich dymuniadau yn dod â thawelwch meddwl, ac yn sgil yr argyfwng presennol, mae hi efallai yn bwysicach nag y bu hi erioed i wneud ewyllys.

Os hoffech drafod llunio ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy e-bost ar ruthcjones25@aol.com

**Ruth Ceri Jones LL.B.**
Cyfreithwraig ac Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau
ffôn: 07925 246199

# Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl

Mae prosiect i helpu gofalwyr di-dâl i gael gwybodaeth a chefnogaeth wedi lansio ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae'r nifer o ofalwyr di-dâl yn cynyddu ac mewn cydnabyddiaeth o'u cyfraniad i gynorthwyo yn y gwaith o ofalu am eu perthnasau a ffrindiau, mae bwrdd iechyd, Hywel Dda, wedi comisiynu prosiect peilot i sefydlu pedwar Swyddog Gofalwyr yn ysbytai Tywysog Philip, Glangwili, Llwynhelyg a Bronglais.

Mae'r prosiect peilot yn bartneriaeth rhwng y bwrdd iechyd â phartneriaid awdurdod lleol, ac mae'n cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Crossroads Sir Gâr, Gofalwyr Ceredigion a Hafal Crossroads.

Meddai Clare Hale, Rheolwr Partneriaethau Strategol a Chynhwysiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: 'Bydd y Swyddogion Gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol gan helpu i roi cefnogaeth a chyngor i ofalwyr di-dâl ar eu taith trwy'r ysbyty – boed fel gofalwr a/neu glaf.

'Bydd y Swyddogion Gofalwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda wardiau ysbyty i gefnogi gofalwyr a chodi ymwybyddiaeth staff o'r problemau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl, er mwyn sicrhau cyswllt effeithiol ar faterion megis rhyddhau o ysbyty.'

Meddai Anna Bird, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Partneriaethau Strategol, Amrywiaeth a Chynhwysiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: 'Rydym wrth ein bodd yn cael gweithio mewn partneriaeth ar y prosiect hwn a fydd yn ein galluogi i dynnu sylw at yr agenda gofalwyr di-dâl yn y bwrdd iechyd gan helpu i nodi a chefnogi gofalwyr sy'n cyfrannu cymaint at ein cymunedau ar draws y rhanbarth.'

I ganfod mwy am y prosiect, cysylltwch â Clare Hale, Rheolwr Partneriaethau Strategol a Chynhwysiant ar 01554 899051 / CarersTeam.HDD@wales.nhs.uk neu trowch at https://biphdd.gig.cymru/gofal-iechyd/gwasanaethau-a-thimau/gwybodaeth-i-ofalwyr/

Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Gofalwyr yn Ysbyty Bronglais, Al Frean, yn uniongyrchol ar 07984 464977 neu al@credu.cymru

Y DDOLEN Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

## Capel Seion

**Pen Blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Gareth Edwards, Capel Seion, ar ddathlu ohono ei ben blwydd – llygad y tarw! Cafodd Gareth ddiwrnod wrth ei fodd, gan dderbyn llawer iawn o gardiau ac anrhegion, a galwadau ffôn. Mae am ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, gan ddweud hefyd ei fod wedi mwynhau ei ddiwrnod arbennig.




**Dathlu**

Llongyfarchiadau lu i Hadyn ac Elaine, Pisga ar ddathlu ohonynt eu priodas berl ychydig wythnosau yn ôl. Gobeithio eich bod wedi nodi'r dyddiad arbennig yma er gwaethaf cyfyngderau'r firws.

Yr un llongyfarchiadau i Roland ac Eirlys Williams, Capel Seion ar ddathlu pen blwydd priodas rhuddem ychydig wythnosau yn ôl. Mwynheuwyd y dathlu gydag aelodau agos o'r teulu.

Danfonwn ddymuniadau gorau i bob un ohonoch i'r dyfodol.

**Bandit ar Daith**


Mae Bandit y Jac-do yn cael hwyl arbennig ar ledu ei adenydd i ymchwilio ei fro ehangach. Mae'n disgyn ar ysgwyddau pobl mewn pentrefi cyfagos, yn cael ambell i bryd bach blasus, ac yna ei lun ar y we! Mae yna ambell i alwad ffôn i Pisga yn cael eu gwneud er mwyn ei gyrchu adref. Mwynha dy ryddid Bandit bach.

**Nanteos**

Mae Plas Nanteos a theulu'r Poweliaid wedi bod yn rhan annatod ac o ddiddordeb mawr, nid yn unig yn y fro yma, ond mewn ardaloedd llawer mwy eang. Yn awr, rydym wedi cael llyfr arbennig wedi ei ysgrifennu gan Janet Joel. Mae yn lyfr cynhwysfawr gyda llawer iawn o wybodaeth manwl am deulu'r Poweliaid a'r ystâd yn gyfan gwbl.

Wrth gwrs, y teulu yma adeiladodd yr ysgol a oedd hefyd yn neuadd yng nghylch Capel Seion 'nôl yn 1874. Roedd yr ysgol yn wreiddiol i blant y gweithwyr a thenantiaid Plas Nanteos. Rhaid eu canmol am eu gweledigaeth i gydnabod pwysigrwydd cael addysg i'r plant 'nôl yn yr adeg honno. Cymerodd yr Adran Addysg yr ysgol drosodd yn 1963 am rent o £1 y flwyddyn. Yn drist, yn 2010 daeth yr amser i'w chau er i'r fro wrthwynebu hyn yn gryf. Trosglwyddwyd yr ysgol yn ôl i'r gymuned gan yr Awdurdod Addysg yn 2012. Mae'r adeilad yn eiddo i'r gymuned sydd erbyn hyn yn ganolfan bwysig i'r gwahanol gymdeithasau sydd yn ei defnyddio.

Yn bendant, bydd y llyfr hwn yn destun trafodaeth frwd i lawer o fewn dalgylch y Plas, am deulu a fu yn rhan mor bwysig a thyngedfennol o hanes yr ardal yn y gorffennol. Mwynhewch. Ceir manylion llawn yma: https://www.nanteoshistory.co.uk/index.asp?pageid=707763




Clawr y llyfr sydd ar gael o Siop y Pethe neu Siop Inc yn Aberystwyth am £17.50.



Janet Joel a'i llyfr newydd.

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau i bobl ifanc yr ardal a gafodd ganlyniadau eu Lefel A a TGAU eleni. Mae'r amgylchiadau yn dra gwahanol a chymhleth y flwyddyn yma, a gobeithiwn eich bod wedi derbyn y graddau roeddech wedi anelu atynt. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

## Llanddeiniol

**Eglwys Sant Deiniol**

*Torri'r fynwent*

Diolch i bawb a ddaeth i dorri'r borfa eleni eto. Gwerthfawrogir hyn gan yr Eglwys bob tro.

*Gwasanaethau*

Mae'n braf cael gwasanaeth unwaith eto ar Sul cyntaf pob mis yn Eglwys Sant Deiniol. Croeso i bawb yn y gymuned i ymuno.

**Brysia Wella**

Dymunwn wellhad buan i Amy Louise Corfield sydd wedi torri ei braich wrth chwarae ar y trampolîn yn ddiweddar. Gobeithio fyddi wedi gwella'n foddhaol erbyn mynd yn ôl i'r ysgol.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Harold Corfield ar golli brawd-yng-nghyfraith o'r Drenewydd ar 21 Awst.

Hefyd estynnir cydymdeimlad i Stan Corfield sydd wedi colli cefnder sef John Corfield o Benrhyn-coch yn ddiweddar.

**Gwellhad buan**

Mae Ingrid Evans, Benglog wedi derbyn clun newydd yn Ysbyty yn Llundain. Mae hi'n aros efo'i mhab, Lawrence sydd wedi derbyn derbyn triniaeth fawr ar ei ysgyfaint. Dymunwn wellhad llwyr iddynt.

## Trisant

**Clwb Ffermwyr Ifanc**

Llongyfarchiadau mawr i Elin Rattray ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Aelod Iau NFYFC. Cynhaliwyd cyfweliadau rhithiol a bu'n brofiad anhygoel i Elin i gystadlu ymysg pencampwyr Prydain. (*Gw. y llun ar y clawr*)

Llongyfarchiadau hefyd i Megan Lewis ar ei dyweddïad â Dyfed Davies, Eisteddfa Fawr, Brynberian.

**GOLCHDY LLANBADARN LAUNDERETTE**

CYTUNDEB GOLCHI . CONTRACT WASHING
GWASANAETH GOLCHI . SERVICE WASHING
DUFET MAWR . KING SIZE DUVETS
CITS CHWARAEON . SPORTS KITS
**FFON:- 01970612459**
**JEAN JAMES**



# Llangwyryfon


Gardd yr ysgol.


Safle'r ciosg ffôn.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Glyn a Judith Jones, Gerwyre, ar golli ewythr i Glyn sef Haydn Jones o Fydroilyn. Hefyd cydymdeimlwn â theuluoedd Talar Deg, Cnwc y Barcud a Facwn ar golli cefnder oedd yn byw yn Y Bontfaen sef Geraint Irfon Jones.

**Gwagle lle bu Galwade**
Mae'r rhai sylwgar ohonoch wedi gweld, mae'n siŵr, fod y ciosg ffôn wedi diflannu o ganol y pentre. Roedd hyn wedi cael ei fygwth ers peth amser ac fe anfonwyd gwrthwynebiad yn y lle cyntaf ar sail y ffaith nad oedd signal i ffonau symudol yn yr ardal a bod y ciosg yn cael ei ddefnyddio gan yrrwyr loriau i ddod o hyd i ffermydd ac hefyd gan bobl ifanc i drefnu lift adref ar ôl disgyn o fws yn hwyr y nos. Ond ar ôl newid y ciosg i dderbyn cardiau yn unig doedd dim llawer o ddefnydd arno, ac ar ôl cael y mast ar gyfer ffonau symudol roedd tynged y ciosg yn amlwg.

**Gardd yr Ysgol**
Mae'r darn o bynfarch y Felin lle plannwyd gardd yn lliwgar dros ben unwaith eto. Er nad yw plant yr ysgol wedi medru helpu y tro hwn, mae Maureen a Bryan Couch wedi sicrhau bod yr ardd yn llawn blodau gyda charped oren ac yml o bob lliw, a'r blodau haul yn gefndir sy'n mynnu sylw. Gobeithio y bydd y tywydd yn caniatáu iddynt barhau yn eu gogoniant pan ddaw'r plant yn ôl i'r ysgol

**Y Cyngor Cymuned**
Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned ym mis Gorffennaf, yn yr awyr agored, ym maes parcio Capel Tabor. Roedd yr aelodau i gyd yn bresennol er mwyn cymeradwyo'r Cyfrifon Ariannol 2019/20. Arwyddwyd y ffurflenni gan y Cadeirydd. Hefyd awdurdodwyd talu'r archwilydd allanol am ei waith a thalu cyflog y clerc ddiwedd y mis.

**Cofio Meilyr**
Ar brynhawn tesog, 8 Awst 2020, cynhaliwyd seremoni breifat ym mynwent gyhoeddus Llangwyryfon i ddaearu peth o lwch y diweddar Ifan Meilyr Llwyd (Mei) a fu farw'n ddisymwth ac annisgwyl ar 21ain Medi 2019. Roedd achlysur wedi ei drefnu ar gyfer 4 Ebrill 2020 i deulu agos a llu o gyfeillion Mei ond oherwydd Covid 19 fe fu raid dileu'r cyfan.

Llywiwyd y seremoni ar 8 Awst yn urddasol gan y Parch Dilwyn O. Jones, Aberaeron, cyn weinidog Tabor pan oedd Meilyr yn blentyn yn Nhŷ'r Ysgol ac Ynyswen. Naw o deulu agosaf Meilyr oedd yno sef ei dad, Rheinallt, ynghyd â Gwion, Scherry, Deio a Casi o Garmel, Caernarfon a Mared, Elgan, Leusa a Cadog o Rydyfelin, Aberystwyth. Oherwydd cyflwr ei hiechyd bregus yng nghartref gofal Hafan y Waun, nid oedd Mari, mam Mei, yn abl i fod yno.

Cafwyd nifer o atgofion hyfryd am gymeriad cwbl unigryw ac mae'r linell a welir ar garreg ei fedd yn crynhoi'r cyfan amdano –'O'r annwyl yr anwylaf'.

Yn ddiweddarach yr un prynhawn gwasgarwyd ychydig o lwch Meilyr ar lawnt Llyfrgell Genedlaethol Cymru, trwy ganiatâd a charedigrwydd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd, Pedr ap Llwyd. Bu Mei yn aelod ffyddlon o staff y Llyfrgell am bedair blynedd ar hugain.


Cyfarfod y Cyngor Cymuned.


Meilyr Llwyd (Mei).

Y DDOLEN
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Aros am y canlyniadau



Rhyfedd. Dyna'r gair i ddisgrifio'r profiad o dderbyn canlyniadau lefel A eleni.

Terfynwyd fy mhrofiad yn Ysgol Gyfun Aberaeron yn gynnar ar ddiwedd mis Mawrth, oherwydd pandemig y Covid-19. Dim ffarwelio. Dim dathlu. Ac yn fwy na dim, dim arholiadau. Roedd yn deimlad hollol od. Beth oedd y cam nesaf? A fydd rhaid ail-wneud yr holl flwyddyn? A fyddwn yn eistedd arholiadau adref? A fyddwn ni'n gorfod eistedd yr arholiadau yn hwyrach yn y flwyddyn? Dim ateb. Dim sicrwydd. Ond gofid.

Rwyf yn ddisgybl blwyddyn 13 yn Ysgol Gyfun Aberaeron, yn astudio Bioleg, Cemeg, Mathemateg a'r Fagloriaeth Gymreig. Yr amcan yw mynd i astudio Deintyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi. Pan ddaeth y newyddion bod ddim rhaid eistedd yr arholiadau yn yr haf, ac mi fyddwn yn derbyn gradd yn seiliedig ar y gwaith roeddwn wedi cyflawni hyd yn hyn, ces elfen o ryddhad ond hefyd ansicrwydd. Ar un llaw, nid oedd rhaid i mi fynd trwy straen o eistedd yr arholiadau eleni, ond ar y llaw arall, roeddwn yn pryderu na fyddai'r graddau byddwn  yn eu dderbyn gan y bwrdd arholiadau yn adlewyrchu fy ngwir allu yn y pynciau.

Fodd bynnag, ar ôl gwneud yn dda yn fy arholiadau AS y llynedd, mi roedden yn eithaf hyderus mi fyddwn yn ennill y tair A, yn cynnwys Bioleg a Chemeg, oedd angen arnaf i astudio deintyddiaeth yn y brifysgol.

Felly, ar ôl treulio 20 wythnos adref yn helpu allan ar y fferm deuluol, am 8 o'r gloch bore dydd Iau, 13 Awst ces e-bost o'r ysgol yn datgan fy mod wedi ennill gradd A* yn y pedwar pwnc, Bioleg, Cemeg, Mathemateg a'r Fagloriaeth Gymreig! Graddau uwch nag y gallwn erioed wedi eu dychmygu! Er hyn, y rhyddhad mwyaf oedd gweld y geiriau, 'Rwyt wedi cael dy dderbyn i astudio deintyddiaeth ym Mhriysgol Caerdydd' ar wefan UCAS!

Er ei fod wedi bod yn gyfnod rhyfedd iawn, heb y Sioe Frenhinol, sioeau haf a'r holl digwyddiadau cymdeithasol, mae fy nghanlyniadau yn dyst, bydd yna eto, haul ar fryn.

**Lynn Morris**

# Colofn Ben Lake ac Elin Jones

**Blwyddyn ddiwylliannol newydd dda i chi i gyd!**

Er gwaethaf amgylchiadau anodd a heriol y misoedd diwethaf, gobeithio eich bod chi wedi cael cyfle i fwynhau gwyliau'r haf, wedi treulio amser gyda theulu a ffrindiau, ac wedi gallu crwydro a mwynhau'r hyn sydd gan Geredigion i'w gynnig unwaith eto.

Rŷn ni'n gwybod bod cadw cysylltiad gyda phobl wedi bod yn gwbl hanfodol dros y misoedd diwethaf, a gyda chynifer o bobl wedi gorfod addasu i weithio a dysgu o adre, mae'r galw am gysylltiad band eang cyflym a dibynadwy yn fwy amlwg nag erioed.

O gyfarfodydd Zoom i wylio cyfresi Netflix, o gynnal cwisiau rhithiol i wneud gwaith cartref arlein – mae band eang cyflym a dibynadwy wedi chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob dydd. Mae'r we hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac iselder yn ystod y cyfnod clo.

Yn anffodus, mae nifer fawr o gartrefi yn parhau i ddioddef cysylltiad band eang araf ac annibynadwy, ac mae'r argyfwng diweddar wedi amlygu pa mor ddiffygiol ac annerbyniol yw'r sefyllfa yng Ngheredigion ar hyn o bryd.

Rŷn ni wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag Openreach, BT ac Ofcom dros y cyfnod clo ac yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i weithredu ar fyrder er mwyn gwella'r sefyllfa. Yn sgil hynny, roeddem yn falch iawn i glywed y cyhoeddiad diweddar bod Ceredigion wedi cael ei dewis i gymryd rhan mewn cynllun peilot band eang newydd.

Golyga hyn fod pob cartref a busnes yng Ngheredigion, sydd â chyflymder band eang llai na 30 Mbps, yn gymwys am grant trwy'r Gronfa Uwchraddio Band Eang. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn ychwanegu at werth y grant, sy'n golygu y gallai cartrefi hawlio hyd at £3,000 o grant, gyda busnesau yn medru hawlio hyd at £7,000. Bydd y cyllid sydd ar gael yn rhoi grant i breswylwyr a busnesau tuag at y gost o osod band eang yn ei heiddo.

**Beth sydd angen i chi wneud nesaf?**

Rydym yn annog pob etholwr sydd â chyflymder o lai na 30Mbps i gofrestru eu diddordeb drwy'r ddolen ganlynol: https://broadband-upgrade-fund.campaign.gov.uk  Y dyddiad cau i gofrestru yw 30 Medi 2020.

Ni fydd cofrestru yn gwarantu y byddwch yn cael cysylltiad band eang cyflym yn eich eiddo – ond po fwyaf o bobl sy'n cofrestru, mwyaf tebygol y bydd cyflenwr masnachol yn cydnabod y galw ac yn manteisio ar y cyfle i gysylltu clwstwr o gartrefi mewn ardal benodol.

Os ydych chi eisiau cysylltu â ni am y cynllun hwn, neu am unrhyw fater arall, mae croeso i chi gysylltu â ni: elin.jones@senedd.cymru / ben.lake.mp@parliament.uk



## O'r Archif
(Chwefror 1980)

# PORTREAD Y MIS
## Jennie Jones


Jennie Jones.

*Lle bu dechrau'r daith*
Medd Cynddelw yn ei gywydd enwog i'r Berwyn
'Tua'r lle bu dechrau'r daith
Af yn ôl i fy nylaith.'

Ie, dyna hefyd brofiad Miss Jini Jones, gynt o Tanllan, Llanfihangel y Creuddyn, sydd bellach yn mwynhau hwyrddydd bywyd yn Glynwern, Llanilar, gan ddychwelyd i'r fro lle y treuliodd rai blynyddoedd ei phlentyndod. Yn ei lyfr *Bro a Brodorion* meddai'r Parch T. J. Davies amdani, 'Bu'n ffyddlon yn Nhanllan ar hyd y blynyddoedd, a siawns na fyddem yn taro arni wrth basio heibio ar ein ffordd i'r Ysgol Sul. Byddai'n porthi'r moch os da y cofiaf, neu yn dod o'r beudy. Un fach weithgar oedd, yn ffit-ffatian ei ffordd o gwmpas y ffald anwastad gyda rhyw ddiwydrwydd cyson. Pe gofynnech i mi ei henw llawn, dwn i ddim, os y gŵyr rhywun tu fâs i Danllan, fel Jini Tanllan yr adwaenem hi neu Jini fach a'r bach yn ddisgrifiad o'i maint, ac yn derm o anwyldeb fel y bydd e yn y Gymraeg. "O ba le y daeth? Pryd y daeth? Faint o flynyddoedd a fu yno?" Alla i ddim ateb, achos yno 'rydw i yn ei chofio hi.'

*Doniol a serchog*
Wel fe fu Jini yn Nhanllan am dros drigain mlynedd, ac er ei bod bellach yn ymyl dathlu ei deunaw a thrigain deil yn iach ac yn ieuanc ei hysbryd, yn llawn doniolwch a serchogrwydd.

*£10 y flwyddyn*
Diddorol ei chefndir. Ganwyd hi yn Llwynteg, Blaenplwyf, ac yna symud yng nghwmni ei mam-gu i Pengarreg, Llanilar, gan ymadael ymhen blynyddoedd eto am ardal Llanfihangel a phreswylio yn y pentref. Pan yn blentyn ysgol dechreuodd weithio ar fferm Tanllan wedi oriau'r ysgol ac yn ystod y gwyliau. Wedi gadael yr ysgol bu yn gweithio ar fferm y Buildings sef Home Farm, Ystad Nanteos, ac wedi marw ei mam-gu a hithau yn ddwy ar bymtheg oed, bu iddi gyflogi gyda Mr Richard Jenkins a dychwelyd eto yn ôl i'w hen gynefin yn Nhanllan am gyflog o ddeg punt y flwyddyn.

*Yn hapus er y caledi*
Dyna'r cyfnod pan oedd y gweithiwr yn 'dwyn ei geiniog dan gwynaw, a rhoi angen un rhwng y naw'. 'Ie dyna gyfnod y gweithio caled gan weithio o wawr hyd hwyr,' meddai. Eto parod yw i dystio fod yna ryw hapusrwydd a phleser ynddo o'i gymharu â rhuthr gwyllt ein bywyd cyfoes modern, lle y mae'r cyfryngau torfol ymron yn eilunaddoliaeth.

*Diwrnod dyrnu*
Hyfryd ei hatgofion am firi'r ffeiriau cyflogi calangaeaf, a hwyl a phrysurdeb un o ddyddiau mawr y fferm sef Diwrnod Dyrnu, ac ymweliad yr injian ddyrnu oedd yn eiddo i Mr Lewis Davies Llanegryn, a'i fab Mr Edward Davies, sydd yn awr yn byw yn Llanafan. Byddai'r ymweliad yn destun siarad am ddyddiau cyn ei ddyfod, a gwelid yr hen gymdogaeth dda ar ei gorau rhwng fferm a fferm canys gorchwyl anodd oedd symud yr injan, a rhaid oedd wrth geffylau ychwanegol i'w thynnu a'i symud o le i le. Mawr hefyd fyddai'r paratoi ynglŷn â'r ymborth ar gyfer yr ugain o ddwylo a fyddai'n ymroi gorff ac enaid yn y gwaith, a mawr yr hwyl a'r tynnu coes diniwed. Bu iddi fyw i weld dyddiau gwell mewn amaethyddiaeth sef gwell telerau, a'r grantiau hael a pharod a ddaeth i ran yr amaethwr, ac fel un a dreuliodd ei bywyd ar y fferm, anrhydeddwyd hi â medal am hir wasanaeth yn Sioe Frenhinol Cymru yn Aberystwyth yn 1953, yng nghwmni y diweddar Ifan Daniel a gyflawnodd gamp debyg ar fferm y Sarnau Fawr. Dymunwn iddi hir flynyddoedd eto i fwynhau bywyd ym mro deg Llanilar.

*Teyrnged i Jini*
Gweithiodd yn ddiwyd drwy bywyd
Hen gyfnod yr oriau caeth
Ac megis Mair o Fethania gynt
'Hyn allodd hon hi a'i gwnaeth'

Hen ŷd y wlad ydyw Jini
Yn onest fe weithiodd ei siâr
A phrofodd hen bentref Llaningel
Yn ganolbwynt ei 'milltir sgwar'.

Troediodd yn ffyddlon i Gynon,
Hen gapel bach syml y fro,
Ac astud wrandawai genhadon y gair
Pob sabath fel deuai'n ei dro.

Goroesi wnaeth ddyddiau'r addewid,
Daeth amser i gefnu ar waith.
Teilwng i hon oedd ymorffwys
R'ôl llafur blynyddoedd maith.

Ym mro Llanilar mae bellach
Mewn tawel a phrydferth fan,
A bellach boed bendith y nefoedd
Ar Jini hen forwyn Tanllan.

**Iorwerth Davies**
Ysbyty Ystwyth

Trydan
**WILL DAVEY**
**Electrical & AV**

Certified Electrical Installation — Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Audio, Visual & Data — Sain, Gweledol & Data
CCTV — CCTV
Inspection & Testing — Arolygu & Phrofi

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Gwella'ch Sgiliau Digidol am Ddim

Gyda'r pwyslais ar ddarparu'n ddigidol yn dod mor gyffredin dros y misoedd diwethaf ac yn debygol o barhau i'r dyfodol agos, efallai y bydd gan fusnesau, sefydliadau a'r hunangyflogedig ddiddordeb mewn cyrsiau ar-lein newydd sy'n cynnig cyfle i weithwyr wella eu sgiliau digidol a chyfryngau.

Prifysgol Aberystwyth sy'n cyflwyno'r rhaglen Cynhyrchu Cyfryngau Uwch, gyda chefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) trwy Lywodraeth Cymru, ac mae dull hyblyg y cwrs yn caniatáu i gyfranogwyr ddechrau astudio pa bynnag fodiwl sydd fwyaf o ddiddordeb iddynt a chymryd cynifer neu gyn lleied o fodiwlau ag y dymunant, naill ai fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) neu i adeiladu tuag at ystod o gymwysterau ôl-raddedig – hyd at lefel MSc (Meistr).

Y peth gwych yw ei fod ar gael **yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd i fusnesau cymwys a'r hunangyflogedig!**

Y modiwlau sy'n cael eu cynnal ym mis Hydref 2020 yw:

- Rhaglennu ar gyfer Cyfryngau Digidol
- Cyflwyniad i Gynhyrchu Cyfryngau
- Sgiliau Uwch mewn Cynhyrchu Cyfryngau
- Diwylliant Digidol
- Datblygu'r We
- Graffeg Gymhwysol
- Rhywedd a Chynhyrchu Cyfryngau

Gall cyfranogwyr astudio heb yr angen i gymryd amser o'r gwaith, trwy raglen dysgu o bell ar-lein.

Mae bwrsariaethau ar gael hefyd i helpu gyda chostau teithio a gofal dibynyddion.

I gael mwy o wybodaeth am y rhaglen Cynhyrchu Cyfryngau Uwch a'r meini prawf cymhwysedd, ewch i: https://amp.aber.ac.uk/cy/hafan/ neu anfonwch e-bost at ccu-amp@aber.ac.uk




Y DDOLEN

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

## Aros i feddwl

gan BETI GRIFFITHS

# Cerdded y Palmant Golau – Harri Parri

Gwyddom ers blynyddoedd am ddawn ysgrifennu ddiamheuol Harri Parri ac mae'r hunangofiant hwn yn cofnodi gwerddonau'r daith. Pwrpas gwerddon yw disychedu ac yn bendant dyna wna cynnwys y gyfrol hon. Mae rhywun yn awchu am wybod mwy wrth bori drwyddi ac mae'r brwdfrydedd yn cael ei gynnal drwyddi draw. Anodd oedd rhoi'r gyfrol lawr. Mae enw Harri Parri bob amser yn sicrhau y cawn lond bol o chwerthin iach, diniwed. Mae ei apêl yn eang ac er fod ein tafodieithoedd yn wahanol, mae'r cyfan yn llifo'n rhwydd. Artist yn ddi-os yw Harri Parri ac yn feistr ar ei grefft. Mae ganddo'r ddawn gyfrin i drin geiriau. Medr gyfuno'r llon a'r lleddf yn hollol ddiffwdan.

Hanes bywyd gweinidog a geir yma ac mae'r gofalaethau y bu'n gweinidogaethu iddynt yn amrywio yn cynnwys gwlad a thref. Daw yn amlwg mai cymeriadau sydd yn apelio ato ac mae'n gyfathrebwr wrth reddf. Mewn un ystyr medrwn ei gymharu ag Aneurin Jones, yr artist: y naill yn darlunio drwy gyfrwng paent a'r llall drwy gyfrwng geiriau. Anwylodd ei hunan yng nghanol ei bobl a disgrifia'r cyfan mor naturiol ac mewn ffordd agos atoch. Hoffais, er enghraifft ei ddisgrifiad o fart Cerrigydrudion, '*fel lle rhagorol i glywed calon y fro yn curo*' ac rwy'n sicr ei fod yn wrandäwr da.

Llwydda'n gyson i gadw diddordeb y darllenydd drwy ddisgrifio rhyw dro trwstan neu'i gilydd er efallai ei fod yn ddigwyddiad llawn gofid ar y pryd: e.e. colli'r ces o'r bŵt pan aeth ar y trên i Benbedw. Mwynheais yr hanes am y cyfnod anturus pan symudodd ef a'i deulu bach i Borthmadog a phenderfynu cadw gafr i bori'r llechwedd serth yng nghefn y cartref. Fel Gweinidog Presbyteraidd dyma benderfynu galw'r llechwedd yn 'Bryniau Casia' oherwydd, dyma'r Maes Cenhadol! ac enwyd yr afr gyda'r enw Beiblaidd Seffora, gwraig Moses. Pwy feddyliai hefyd y byddai gafr yn cael cymaint o flas ar dudalennau'r 'Goleuad'?

Gweinidog oedd yn barod i arbrofi oedd Harri Parri, yn gweithio gyda grym deng ewin gyda PHAWB ac yn llwyddo hefyd. Cafodd y bobol a fu o dan ei ofal brofiadau cyfoethog. Gadawai stamp ei bersonoliaeth ble bynnag yr âi a chyflawnai'r cyfan heb gyfri'r gost.

Yna penderfynodd symud i Gaernarfon a wynebu sialens newydd eto fyth ond ymatebodd Harri Parri i'r her gyda'i holl ofynion. Pan losgwyd Capel Moriah i'r llawr fe sefydlwyd Eglwys Seilo ymhen amser a'i Theatr enwog a phoblogaidd oedd yn llawn posibiliadau. Dyma weld perfformiadau a chyflwyniadau cofiadwy gan Gymdeithas y Gronyn Gwenith ac eraill gan lwyddo i ddenu cynulleidfaoedd o bell ac agos. Nid bychan o gamp oedd cyflwyno rhain am bymtheng mlynedd. Wrth sôn am y rhain cawn ambell i berl fel yr un sy'n sôn am yr actores, Elen Roger Jones yn ymweld ag un rihyrsal ac yn ceryddu un o'r actorion oedd yn rhy gaeth i'w sgript: '*Fedrwch chi ddim actio a sgript yn eich llaw fel ci wrth dennyn!*'

Mae'r gyfrol yn llawn amrywiaeth. Sonnir am y gwahanol deithiau gan gynnwys y daith i Bafaria a gweld drama'r 'Croeshoeliad' yn Oberammergau. Byddai rhyw brosiectau ar waith byth a hefyd. Cefnogwyd nifer o elusennau a phwysleisia roi cyfle i bawb wneud eu cyfraniad ac edmygu'r ymateb. Prynwyd bws mini i elusen Macmillan ac Ysbyty Brynseiont. Pwy fyddai'n fwy addas i fod yn llywodraethwr ar Ysgol Pendalar na Harri Parri?

Diddorol hefyd oedd darllen hanes Arthur Rowlands, y plismon dall a gafodd y profiad dirdynnol ar Bont-ar-ddyfi ger Machynlleth. Sbardunodd hyn ef i gasglu arian tuag at gael cŵn tywys ar gyfer y deillion.

Daeth gwên i'r wyneb wrth ei glywed yn sôn ei fod wedi dysgu llawer am rasys milgwn wrth fod mewn ysbyty yn Lloegr a'r hiwmor eto yn brigo i'r wyneb. Dim ond Harri Parri fyddai'n gweld yr ochr ddoniol.

Yn ddi-ddadl, mae'r awdur yn gyfathrebwr penigamp ac yn medru apelio at drwch y boblogaeth, 'nid gordd sydd ganddo i drafod pobol ond pluen. Cosi'n gynnil wna Harri Parri, nid waldio'.

Person diymhongar yw Harri Parri ac yn deall y natur ddynol. Pa ryfedd fod yna giwio i gael sedd yn y Babell Lên pan oedd John Ogwen wrthi yn cyflwyno straeon 'Porth yr Aur'? Mae *Cerdded y Palmant Golau* yn berl o gyfrol i'w thrysori.

# Blaenplwyf

Gohebydd: Mary Parry, Troedyfoel
(01970 612612)

**Pen Blwydd Hapus**
I Griff Morris, Bryncrwn ar ei ben blwydd yn ddeunaw oed ddechrau Medi. Gobeithio y cei amser wrth dy fodd yn 'partïo' a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Croeso**
I Dyfrig Williams, Tynewydd, Llangwyryfon ac Emily Lloyd (yn wreiddiol o Dre Wyddel, Gogledd Penfro) i fyw i Fferm Tangraig (sy'n ffinio â'r Lôn Gefn). Ffermwr ifanc llwyddiannus yw Dyfrig a mab Gareth ac Eirwen Williams ac mae Emily newydd gychwyn ar ei gyrfa fel meddyg yn Ysbyty Glangwili. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Addysgol**
Dymuniadau gorau i Beth Riley, Yr Ynys wrth iddi gychwyn ar ei chwrs Doethuriaeth ym Mhrifysgol Milfeddygol, Caeredin ym mis Medi. Ei phwnc arbenigol fydd 'Iechyd Lloi'. Graddiodd Beth rai blynyddoedd yn ôl o Brifysgol Milfeddygol Lerpwl a bu'n gweithio am gyfnod yng Ngogledd Iwerddon. Mae hi wedi cyfrannu'n dda i weithgareddau'r Siop Gymunedol yma ers y cyfnod cloi a diolch iddi am ei chyfraniad.

Yr un yw'n dymuniadau hefyd i Robat Ellis, Cwrtycwm wrth iddo gamu o Addysg Uwch i astudio Hanes ym Mhrifysgol Abertawe.

I Tom Kendall Llanbadarn, ŵyr i Judith Kendall, Maes y Parc wrth iddo yntau anelu am Brifysgol Caerdydd i'w gymwyso'n Therapydd Galwedigaethol. Bu Tom yn llwyddiannus iawn wedi dwy flynedd o astudio yng Ngholeg Ceredigion.

I Iwan Morris, Bryncrwn ar lwyddo yn ei arholiadau TGAU a phob hwyl i'th gynlluniau at y dyfodol.

Mae amryw o ddisgyblion cynradd yn camu i Addysg Uwch a dymuniadau gorau i chi i gyd: Holly Rock, Parc Isaf; Haf Jones, Pentre; David Macdonald, Rhydygwin i Ysgol Penweddig a Peter Newby, Tegfa i Ysgol Penglais.

**Cydymdeimlad**
Ein cofion at Iris Jones, Delfryn a'r teulu ym marwolaeth ei chwaer ddechrau Awst sef Ann Edwards, Cylch Peris, Llannon.

**Croeso Nôl**
I Lotte Reimer, Banc y Môr wedi iddi orfod treulio pum mis yn ei gwlad enedigol (Denmarc) dros y cyfnod cloi. Mae Kelvin, ei phartner yn dal yno. Braf oedd ei gweld hi nôl tu ôl i gownter y siop! Mae'r ddau wedi prynu llain o dir yn Nenmarc fel y gallant ymweld â'r teulu yn aml yn y dyfodol.

# CORNEL Y BEIRDD

Mae llawer hen ddywediad
Gan lawer hen gymeriad
Yn dwyn ar gof o hyd i ni
Am ffraethni ffordd o siarad.

Derbyniais yr erthygl ddiddorol yma a ymddangosodd gyntaf yn y *Welsh Gazette* yn 1939 a dyma ei rhannu â chi.

**Enwau Rhyfedd Mewn Un Ardal**
Mae Asia yn Bethania
Â Charmel ar y Bryn,
Ar lethr, Patagonia,
Ger llaw yr Eiddwen Lyn,
Yr Aifft fel dinas Noddfa …
Ym mhentref bach Cross Inn
A Chymro 'mhell o gartra
Sy'n darllen Pant a Bryn.

Ni wn pwy yw M. R. Davies, Albany-road, ond tebyg ei fod yn gyfarwydd â'r ardaloedd hyn, ac yn hiraethu am glywed y cornicyll a'r chwibanogl yng ngwlad yr 'Iddew'!

A dyna ŵr arall o'r enw Hughes, High Road, E10, gynt o rhwng Joppa a Mesech yn rhan ucha plwy' Llanrhystyd yn dweud stori am hen gymeriad o'r enw Daniel Mountan, Penrhiw. Arferai merched yr ardal fynd i ardal Goginan i wasanaethu a phriododd dwy ohonynt os nad rhagor, â gwidmanod [gwŷr gweddw] (enw da) yn y cylch. Un diwrnod hebryngodd Daniel un o'r merched a'i thipyn dodrefn i Goginan. Holai y ffordd yn Aberystwyth i 'Bentref y Gwidmanod.' Dechreuodd rhyw wag holi Daniel am ei drigfan.

'Wel w' meddai Daniel, ''rwy'n dod o le bach w a elwir Mountan;' ac ebai'r dyn; 'Ni chlywais erioed am y lle.' 'O naddo fe w,' atebai Daniel, 'Wel ma fe ychydig bach w, welwch chi, o war Joppa'. 'A ble gebyst ma Joppa?' 'Ychydig is lawr na Pont Ruthi' ebai Daniel eto, 'ac y mae hwnnw nes lawr na Durah a Durah eto tua hanner milltir o Hyde Park.' 'A ble ma'r Hyde Park yna?' gofynnai'r dyn mewn syndod: 'O tipyn bach nes lawr na Soar w, ac os wyt ti am gael gwybod ble ma Soar w mae e yn ochr Corspwyllybadell.'

'Wel! wel! ni chlywais i am y fath leoedd,' ebai'r dyn eto. 'O naddo fe w. Y ma Mountan yn ffinio a Plas-y-Pwdel a hwnnw yn ffinio â Starving a Starving yn ffinio â Mesech a dyna o ble 'rwy'n dod.' Aeth y dyn i ffwrdd heb fod fymryn callach.

Dyma'r esboniad ar Mesech. Brynperis yw yr enw iawn. Flynyddoedd lawer yn ôl codwyd tŷ newydd a rhaid oedd i Mari Jeri fynd i lawr i Bantrhydogfaen i gysgu bob nos. Pan ddaeth y tŷ yn barod gorfu i Mari dalu am lodgings a dyna ddywedodd yr hen wraig, 'gwae fi fy mod yn preswylio ym Mesech ac yn cyfaneddu ym mhebyll Cedar' (Salm 120.5).

Aeth Daniel un tro gyda Siencyn, Bryn sessiwn (y foreman) i'r cynhaeaf i Henffordd. Clywai Sais yno un hwyr yn herio cydymwyr [codymwyr]. 'Be ma fe'n weud w?' gofynnai Daniel, 'O gofyn a wna rywun gydymo [godymu] ag ef', meddai Siencyn. Yn union deg gwelid Daniel, y gŵr byr cadarn, yn cydio am ganol y Sais a hwnnw'n gweiddi 'Let go man, let go'. 'Be ma fe'n weud nawr Siencyn?' 'O' meddai hwnnw, 'gofyn a hyna fach allu di wasgu.' 'O ie w' ebai Daniel gan wasgu â'i holl nerth a'r Sais yn dechrau duo. 'Be ma fe'n weud nawr?' oedd cwestiwn Daniel eto. 'Er mwyn Duw gollwng ef yn rhydd,' ebai Siencyn a dywedir i Daniel godi'r Sais dros ben clawdd. 'Dear me,' ebai'r Saeson, 'are you Welsh all as strong as that?' ac meddai dyn bach eiddil, eiddil o blith y cwmni gan chwyddo ei gest fel ceiliog dandi, 'go debyg i ni i gyd.'

Rhyw Dafydd Penwern oedd hwnnw.

Ond pwy rydd esboniad ar yr holl eiriau rhyfedd ym Mhlwy Llanrhystyd, ffugenwau rai ohonynt hefyd? Nid oes yr un ardal arall drwy'r Sir â chymaint o enwau Beiblaidd. Nid wyf yn deall fod trigolion y plwy' yn honni eu bod yn fwy o ysgrythurwyr na dynion eraill. Tybed a oedd mwy o ddireidi yno?

*Welsh Gazette 10/8/1939*
Mae croeso i chi anfon deunydd i'w gynnwys yn y golofn. Anfonwch nhw at:
M. B. Morgan, Tŷ Newydd, Llanrhystud
SY23 5ED

# Llanafan

Gohebydd: Alwena Richards, Awel y Bryn (01974 261382)

**Geni**
Llongyfarchiadau i Gwenda a Donald Evans, Rhandir ar enedigaeth ŵyr bach arall – mab bach i Euros a Michelle a brawd i Phoebe. Ei enw yw Macs Harri. Pob dymuniad da i'r teulu i gyd.

Llongyfarchiadau hefyd i David ac Elaine Henderson, Tanybwlch ar enedigaeth eu hwyres cyntaf. Ganwyd merch fach i Elfyn a Siwan yng Nghaerdydd a chwaer i Osian Idris ac Inigo Math. Dymuniadau gorau iddynt hwythau hefyd.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i holl ieuenctid yr ardal sydd wedi bod yn llwyddiannus yn yr arholiadau Lefel A a TGAU. Mae wedi bod yn amser gofidus iawn iddynt i gyd y flwyddyn yma. Pob dymuniad da iddynt yn y colegau, nôl yn yr ysgol neu mewn prentisiaeth.

**Marw**
Ar ddydd Iau, 20 Awst daeth y newydd trist am farwolaeth Gordon Williams, 13 Maesyfelin yn Ysbyty Birmingham. Cydymdeimlir yn ddiffuant â'i briod Sue, ei ferch Abigail ac â'r wyrion Molly a Dylan yn eu colled a'u hiraeth.

# Crefftus

*Wendy Rattray sydd wedi cytuno i ateb ein cwestiynau y mis hwn. Iâr Fach yr Haf yw enw menter Wendy ac mae'n creu darnau hardd wedi eu gwnïo â llaw. Edrychwn ymlaen i ddod i wybod ychydig mwy am yr hyn mae'n ei greu.*






**O ble daeth yr enw Iâr Fach yr Haf?**
Cefais fy magu yn defnyddio'r enw Iâr Fach yr Haf ar gyfer glöyn byw ac roeddwn bob amser yn meddwl ei fod yn enw tlws, er bod ganddo ei heriau wrth ddarparu cyfieithiad llythrennol i gwsmeriaid. Mae'n anodd dod o hyd i enw unigryw ar gyfer busnes ac roeddwn i'n teimlo ei fod yn gweddu i ddelwedd fy musnes crefft.

**Ers faint ydych chi wrthi yn gwnïo? Ydi chi wastad wedi bod â diddordeb yng ngwaith crefft?**
Mae Mam yn berson crefft medrus ac roedd bob amser yn darparu cyfleoedd i fi a'm dwy chwaer i greu ac arbrofi gyda phob math o gyfrwng pan oeddem yn tyfu i fyny. Roedd hi bob amser yn ein dysgu i ymfalchïo yn y darn gorffenedig a rhoi sylw i fanylion a gorffeniad taclus pob darn o waith. Mae ganddi gwmni hefyd o'r enw Crefftau Olwen sy'n creu gwaith arbennig ac rydym yn aml yn rhannu syniadau.

**Disgrifiwch y mathau o ddarnau fyddwch chi'n eu creu?**
Rwy'n dylunio fy lluniau ar bapur i gychwyn ac yna'n trosglwyddo'r siapiau i ffabrig ac yn eu smwddio i'r cefndir. Mae'n broses eithaf llafurus ond yn foddhaol iawn pan fydd wedi ei gwblhau. Yna byddaf yn mynd ati i bwytho o amgylch pob darn o ffabrig sy'n creu teimlad '3D' i'r llun. Y rhan olaf yw brodio Cennin Pedr i ddod â'r darn cyfan at ei gilydd. Mae'r melyn yn lliw perffaith i godi'r lliwiau traddodiadol.

**Ble daeth y syniad yn wreiddiol ar gyfer y lluniau?**
Mae'r dyluniadau wedi datblygu'n raddol dros y blynyddoedd. Rwy'n cofio gwisgo'r wisg Gymreig draddodiadol gyda'r bonet ar Ddydd Gŵyl Dewi yn blentyn ac roeddwn yn meddwl y byddai'n braf creu lluniau i bobl sy'n ennyn atgofion am blentyndod neu aelodau o'u teulu. Erbyn hyn y darn mwyaf poblogaidd yw'r 'Teulu' sy'n cael ei gomisiynu i adlewyrchu aelodau'r teulu sy'n eistedd mewn cae o Gennin Pedr.





**A fyddwch chi'n defnyddio peiriant gwnïo neu gwnïo â llaw yw'r mwyafrif o'ch gwaith?**
Mae'r lluniau yn cael eu creu â llaw i gyd. Mae'r darnau ychydig yn fach i ddefnyddio peiriant gwnïo a dwi tipyn mwy hyderus â llaw na gyda pheiriant.

**Faint o amser sy'n mynd i greu llun gorffenedig?**
Rwy'n gweithio'n llawn amser felly dim ond yn ystod fy amser hamdden dwi'n cael cyfle i greu lluniau, a dyw hynny byth yn ddigon. Bydd y lluniau llai yn cymryd pedwar neu bum niwrnod a gall y lluniau mwy 'Teulu' gymryd hyd at bythefnos ond mae hyn yn amrwyio yn ôl y darn a llwyth gwaith.

**Heblaw'r lluniau, beth arall rydych chi'n ei gynhyrchu?**
Ymysg y nwyddau dwi wedi'u cynhyrchu mae nifer o gardiau, llieinau llestri, bagiau, cwpanau a 'coasters'.

**Beth rydych chi'n ei fwynhau fwyaf am y gwaith crefft?**
Y pleser mwyaf dwi'n gael yw cysylltu gyda phobl ar draws Cymru a thramor i drafod darnau a'r storïau tu ôl iddynt. Dwi wedi creu lluniau allan o hen siôl oedd wedi bod yn y teulu ers sawl cenhedlaeth a nifer o ddarnau allan o defnydd sy'n bersonol i deuluoedd. Mae nifer o luniau hefyd wedi mynd dramor at bobl sydd wedi symud o Gymru ers nifer o flynyddoedd ac am gael darn bach o Gymru yn eu cartref.

**Pa ddarn sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf i chi wrth ei gwblhau?**
Cefais fy nghomisiynu gan Bwyllgor Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru i greu darn i goffáu'r 100fed Sioe. Roedd yn brîff eithaf penodol cyn belled â nifer a brîd yr anifeiliaid oedd angen eu cynnwys ond roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i greu darn mor arwyddocaol.

**Ble rydych chi'n gwerthu eich lluniau?**
Dwi'n gwerthu yn uniongyrchol fel rheol ond mae rhai lluniau a nwyddau ar gael yn lleol yn Siop yr Amgueddfa yn Aberystwyth a Siop y Castell yn Aberteifi.

**Ydi chi'n cymryd gwaith comisiwn? Sut gall pobl gysylltu gyda chi?**
Dwi'n gwneud gwaith comisiwn a'r ffordd orau i gysylltu yw drwy ddanfon neges ar fy nhudalen 'Facebook' neu drwy e-bost i gwybodaeth@iarfachyrhaf.co.uk

**Beth sydd ar y gweill nesaf?**
Dwi bob amser yn llawn syniadau ac yn ysu am greu darnau newydd pan fo amser. Dwi'n aelod o grwpiau fel Crefftwyr Aberystwyth, Oriel y Bae a Thaith Celf a Chrefft Ceredigion (Ceredigion Art and Craft Trail) felly dwi'n gobeithio bydd yn bosib fod yn rhan o ambell ddigwyddiad cyn y Nadolig. Mi wnaf hysbysebu digwyddiadau ar fy ngwefan https://iarfachyrhaf.com/

# Ceredigion yn rhan o gynllun peilot ar gyfer band eang ffeibr

Nid yw'r galw am gysylltedd cyflym a dibynadwy â'r Rhyngrwyd erioed wedi bod mor amlwg nag yn y misoedd diwethaf, gyda mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau ar lein a mwy o bobl yn gweithio o gartref. Yn sgil hynny, dewiswyd Ceredigion yn ardal beilot ar gyfer menter gan Lywodraeth y DU sy'n anelu at sicrhau mwy o fand eang ffeibr mewn ardaloedd gwledig. Mae'r cynllun prawf yn rhoi cyfle i fusnesau a thrigolion gymryd camau i ddatrys eu problemau cysylltedd er mwyn sicrhau newidiadau cadarnhaol i'r economi a safon byw yn y sir.

Ar 27 Gorffennaf 2020, lansiodd Llywodraeth y DU gynllun peilot yn rhan o'i Gynllun Talebau Gigabit Gwledig, a fydd yn ei gwneud yn haws i drigolion a busnesau ddangos bod galw i osod band eang ffeibr drwy'r sir. Nod y cynllun peilot, o'r enw 'Y Gronfa Uwchraddio Band Eang', yw cefnogi busnesau, gweithwyr a chymunedau gwledig i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n gysylltiedig â chysylltiadau cyflymach a mwy dibynadwy â'r Rhyngrwyd.

Gan gynnwys cynllun taliadau atodol Llywodraeth Cymru, mae trigolion yng Ngheredigion yn gymwys i hawlio hyd at £3,000 a gall busnesau bach a chanolig hawlio hyd at £7,000 i uwchraddio i fand eang gigabit, sy'n gallu lawrlwytho ar gyflymder o 1 gigabit (1,000 megabit) yr eiliad, ac sy'n llawer cyflymach na'r cyflymder presennol ar draws Ceredigion.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i weithio gyda chyflenwyr masnachol a'r ddwy Lywodraeth i sicrhau gwell cysylltedd ar gyfer y Sir ac yn annog perchnogion busnes a thrigolion i ddod at ei gilydd er mwyn cynyddu cyfanswm yr arian y mae gan eu cymuned hawl iddo drwy gynllun peilot Llywodraeth y DU.

Ni fydd cofrestru yn unig yn sicrhau y bydd cysylltiad ffeibr yn cael ei osod yn dilyn hynny – ond po fwyaf o eiddo sy'n cofrestru, y mwyaf tebygol y bydd cyflenwyr masnachol yn cydnabod y galw ac yn manteisio ar y cyfle i osod band eang ffeibr yn yr ardal.

Dywedodd Matt Warman, Gweinidog dros Seilwaith Digidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig: 'Mae gwell cysylltiad band eang yn gwella bywydau pobl, ac mae'r llywodraeth yn ei gwneud yn haws i gymunedau gwledig yng Ngheredigion fanteisio ar fuddion cymdeithasol ac economaidd band eang gigabit-alluog. Drwy'r fenter hon, gall y rheini sy'n dioddef o Ryngrwyd araf dderbyn cyfraniad hael tuag at gostau cael cysylltiadau cyflymach a mwy dibynadwy â'r Rhyngrwyd yn eu cartrefi neu fusnesau. Rwy'n annog pobl i gofrestru i ddarganfod a ydynt yn gymwys am y cynllun hwn sy'n rhoi hwb i fand eang y genhedlaeth nesaf.'

Daw hyn wrth i ymchwil newydd ganfod y gall band eang dibynadwy chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gadw pobl mewn cysylltiad yn ystod Covid-19. Roedd bron i chwech ym mhob deg (58%) o drigolion Ceredigion a holwyd sy'n defnyddio band eang yn dweud bod y Rhyngrwyd wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i frwydro yn erbyn teimladau o unigedd neu unigrwydd yn ystod y cyfnod clo.

Roedd dwy ran o dair (67%) o'r ymatebwyr sy'n gweithio ac yn defnyddio band eang yn gweithio o gartref naill ai drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser yn ystod y cyfnod clo, ond roedd bron i hanner (46%) yn teimlo'n rhwystredig ar adegau oherwydd cysylltiad annibynadwy â'r Rhyngrwyd. Mae pedwar ym mhob deg (40%) yn honni y byddent yn gallu gwneud eu gwaith yn well pe bai ganddyn nhw gysylltiad cyflymach â'r Rhyngrwyd.

Dylai band eang gwell a mwy dibynadwy fod yn arbennig o ddefnyddiol yng Ngheredigion, lle dywedodd pedwar ym mhob deg (40%) bod ansawdd eu galwadau fideo wrth weithio o gartref yn 'wael yn aml' oherwydd eu cysylltiad â'r Rhyngrwyd ac mae 31% wedi cael trafferth ymuno â chyfarfodydd rhithwir neu wedi colli cysylltiad yn eu canol.

Croesawodd y Cynghorydd Clive Davies, Hyrwyddwr Digidol Cyngor Sir Ceredigion, y cynllun gan ddweud: 'Gydag ychydig iawn o fuddsoddiad masnachol gan y prif ddarparwyr band eang yng Ngheredigion, mae'n newyddion gwych bod Llywodraeth y DU, fel Llywodraeth Cymru, wedi cyflwyno'r wefan hon i symleiddio'r cynllun talebau er mwyn creu clystyrau i ddenu darparwyr i helpu ein cymunedau i gael gwell cysylltedd band eang. Felly, rwy'n annog pob un o'n trigolion a'n busnesau sy'n dioddef o gysylltedd gwael neu ddim cysylltedd ar hyn o bryd i gofrestru. Bydd yn bwysig felly bod y Llywodraethau'n gweithio'n adeiladol gyda'r sector preifat a ninnau i bennu a chyflwyno atebion i'n cymunedau.'

I gael gwybod mwy ac i gofrestru, dylai trigolion a busnesau bach a chanolig fynd i https://broadband-upgrade-fund.campaign.gov.uk/

Cware ac Olew Trefigin
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
TYWOD
GRAEAN
CERRIG
BLOCS
DERV
TANWYDD TŶ
DISEL FFERM
LLWB OLEW

www.trefigin.cymru
(01239) 881282
(01239) 881630

ALED ELLIS
ARWERTHWYR . PRISWYR
ASIANTWYR TAI
16 Ffordd y Môr, Aberystwyth
Rhif Ffôn 01970 626160
e-bost sales@aledellis.com

Y DDOLEN
Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol